Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC1: Adroddiad opsiynau lefel twf

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Awst 2025**

CONWY

**This document is also available in English.**

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

## Cynnwys

Penawdau ..... 3
1 Cefndir ..... 5
Nodyn ar ryddhad canlyniadau Cyfrifiad 2021 a'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar 2022 ..... 9
Nodyn ar ystyried effeithiau Covid-19 ar strategaeth dwf y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ..... 10
2 Edrych ar y dystiolaeth ..... 12
Proffil demograffig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy ..... 12
Ymfudo ..... 16
Y gofyn am anheddau a'r anheddau a gwblhawyd yn y gorffennol ..... 20
Twf economaidd ..... 23
Dyheadau'r Cyngor ar gyfer y CDLl newydd ar gyfer 2018-2033 ..... 24
3 Y opsiynau twf y rhoddwyd ystyriaeth iddynt ..... 26
Amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth ..... 27
Amcanestyniadau a arweinir gan y boblogaeth ..... 28
Amcanestyniadau a arweinir gan anheddau ..... 29
4 Opsiwn twf a ddewiswyd ..... 30
Cyfiawnhad dros gefnogi'r dewis twf hwn ..... 31
Dadleuon yn erbyn gefnogi'r dewis twf hwn ..... 32
5 Beth mae'r opsiwn twf a ffefrir yn ei ddangos ..... 33
Newid yn y boblogaeth ..... 33
Twf aelwydydd ..... 36
Gofynion anheddau ..... 37
Effaith ar ddarparu tai fforddiadwy ..... 40
Cymysgedd tai ..... 40
Effeithiau cyflogaeth ..... 44
Atodiad 1: Goblygiadau ehangach twf aelwydydd a'r boblogaeth ..... 46
Atodiad 2: Rhestr o'r opsiynau twf a ystyriwyd ..... 49

## Penawdau

Cynhyrchwyd y papur hwn i ddarparu gwybodaeth gefndir i gefnogi'r cam ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy 2018-2033 (CDLIN), y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei lunio.

Mae'r papur cefndir yn disgrifio'r opsiynau arfaethedig ar gyfer twf yn y Fwrdeistref Sirol a sut y mae'n bosibl i'r rhain effeithio ar strwythurau a chyfansymiau'r boblogaeth, gofynion anheddau a'r cymysgedd tai, ac mae'n nodi goblygiadau posibl y twf rhagamcanol o ran tir cyflogaeth a swyddi.

**Ffigur 1: crynodeb o effeithiau rhagamcanol yr opsiwn twf a ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy**

| Newid 2018-2033 | |
|---|---|
| **Twf aelwydydd** | 3,350 |
| **Effeithiau anheddau** | |
| **Gofyniad anheddau BSC** | 3,700 |
| **Gofyniad anheddau ac eithrio PCE*** | **3,600** |
| **Ynghyd â thai wrth gefn** | 720 |
| **Cyfanswm gofyniad ac eithrio PCE*** | 4,300 |
| **Y gofyn blynyddol cyfartalog** (ac eithrio ffigur wrth cefn) | 240 |
| **Gofynion tir ar gyfer tai** | |
| **Cyflenwad presennol** | 2,950 |
| **Dyraniadau newydd sy'n ofynnol** | 1,350 |
| **Effeithiau economaidd** | |
| **Twf swyddi** | 1,500 |
| **Twf swyddi ac eithrio PCE*** | **1,450** |
| **Tir (ha)** | **10.5** |

* Y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r crynodeb o effeithiau anheddau a chyflogaeth dros gyfnod y Cynllun i'w weld yn ffigur 1. Mae manylion llawn ar gael yn adran 5 o'r adroddiad hwn. Mae'r holl ddata yn dangos newid rhwng 2018 a 2033 (cyfnod y Cynllun).

Cyn profi’r senarios twf ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, mi edrychom ar rai o’r ffactorau sy’n dylanwadu ar newid, gan gynnwys proffil demograffig Bwrdeistref Sirol Conwy, twf economaidd, cyfraddau cwblhau tai'r gorffennol, a dyheadau’r Cyngor o safbwynt y CDLl newydd. Defnyddiwyd y dystiolaeth i helpu i siapio’r ystod eang o’r gwahanol senarios twf yr edrychwyd arnynt cyn bodloni ar yr un a gyflwynir yn y papur hwn.

Mae’r papur hwn yn diweddaru gwaith a gyflawnwyd ar gyfer cam ymgynghori strategaeth a ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae’r lefelau twf wedi newid ers y cam hwnnw o’r ymgynghoriad, yn dilyn diweddaru tystiolaeth allweddol yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth. Mae peth o’r wybodaeth yn adran 2 ‘edrych ar y dystiolaeth’ hefyd wedi cael ei ddiweddaru er mwyn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ar gael.

# 1 Cefndir

1.1 Lluniwyd y papur hwn i ddarparu gwybodaeth ar yr opsiynau twf ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2018-2033 sy'n cael ei lunio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cam ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo o'r broses. Mae'r papur cefndir yn datgan opsiynau arfaethedig ar gyfer twf yn yr ardal a sut y bydd y rhain yn effeithio ar strwythurau a chyfansymiau'r boblogaeth o bosibl, y gofynion am anheddau a'r cymysgedd tai. Mae hefyd yn nodi goblygiadau'r twf amcanestynedig o ran tir cyflogaeth a swyddi.

1.2 Mae'r papur hwn yn adeiladu ar waith a wnaed ar gyfer y cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd y broses Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Allan o'r ystod o amcanestyniadau a gynhyrchwyd bryd hynny, dewiswyd pump fel y rhai a oedd yn cynrychioli'r dystiolaeth orau, ac sydd hefyd yn cefnogi dyheadau'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd tri o'r opsiynau twf yn amcanestyniadau a arweinir gan y boblogaeth sy'n defnyddio methodoleg amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru fel man cychwyn, ond sy'n defnyddio gwahanol dueddiadau a thybiaethau am dwf i'r dyfodol. Cafodd y ddau senario twf ychwanegol eu harwain gan gyflogaeth ac yn deillio o'r wybodaeth yn yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ELR) a Strategaeth Twf Economaidd y Cyngor.

1.3 O ganlyniad i'r ymgysylltiad hwn â rhanddeiliaid allweddol datblygwyd strategaeth a ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a ddewisodd un o'r amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth fel yr opsiwn twf a ffefrir. Ceir mwy o fanylion am y dewis hwn o ran twf yn nogfen y Strategaeth a Ffefrir[1].

1.4 Fel rhan o'r archwiliad parhaus i'r sail dystiolaeth, diweddarwyd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn Hydref 2020, gyda mân ddiweddariad arall i'r ffigyrau gofynion tir yn Awst 2021. Roedd y fersiwn diwygiedig yn archwilio'r data diweddaraf am yr economi a swyddi o fewn y Fwrdeistref Sirol, ac yn ystyried yn benodol effeithiau posibl pandemig Covid-19 ar dwf economaidd. Cyflawnwyd yr adolygiad yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith pandemig Covid-19. Roedd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig yn nodi twf

[1] http://www.conwy.gov.uk/cdlln

swyddi posibl o +1,450 dros gyfnod y Cynllun (+1,500 o swyddi yn cynnwys Parc Cenedlaethol).

1.5 Mae’r papur hwn yn cyflwyno’r opsiwn twf a nodwyd yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig. Mae’n disodli’r ffigyrau gofynion annedd a chyflogaeth ar gyfer twf dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gyflwynwyd yn y Strategaeth a ffefrir. Mae’r senario ‘polisi ar’ a gynhyrchodd lefelau uchel o dwf mewn swyddi, bellach yn cael ei ystyried yn opsiwn â mwy o risg yn sgil yr ansicrwydd cynyddol yn yr economi fyd-eang, o bosibl yn effeithio ar brosiectau lefel rhanbarthol[2].

1.6 Gwnaed newidiadau hefyd i’r rhagdybiaethau a methodolegau a ddefnyddir wrth gyfrifo effeithiau twf swyddi newydd dros gyfnod y Cynllun, yng ngoleuni set newydd o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2020[3]. Mae peth o’r wybodaeth yn adran 2 ‘edrych ar y dystiolaeth’ hefyd wedi cael ei ddiweddaru i ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys canlyniadau o Gyfrifiad 2021 a’r amcangyfrifon poblogaeth newydd a gafodd ei ryddhau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Nhachwedd 2023 a Chwefror 2024.

1.7 Mae’r papur yn edrych ar y dystiolaeth a archwiliwyd wrth ystyried yr opsiynau twf hyd yma. Rhoddir esboniad hefyd o’r methodolegau ystadegol a’r tybiaethau polisi a ddefnyddiwyd i wneud y dewis hwn. Rhoddir hefyd ychydig o fanylion am yr opsiynau twf eraill y rhoddwyd ystyriaeth iddynt a’r rhesymau pam y’u gwrthodwyd (gweler Adran 4 ac Atodiad 2).

1.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn argymell:

> (b)ydd yr Amcanestyniadau Aelwydydd lefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol (AFDLl) diweddaraf, a’r cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun, yn rhan sylfaenol o’r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu. Dylid ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion

[2] Mae mwy o wybodaeth am yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig a newidiadau i’r strategaeth dwf ar gael ym mhapur cefndir 18 Adolygiad Tir Cyflogaeth http://www.conwy.gov.uk/cdlln

[3] https://www.llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-o-aelwydydd-sail-2018; https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-o-aelwydydd-sail-2018

fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn cynllun datblygu er mwyn sicrhau y caiff lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus eu creu.

a bydd

angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i'w hardal, ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen[4].

Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio dyletswydd Awdurdodau Cynllunio i wneud nodyn o 'Gynlluniau Llesiant' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth.

1.9 Mae cafeatau ychwanegol i'w hystyried wrth geisio symud y tu hwnt i'r amcanestyniadau a gynhyrchwyd yn swyddogol y rhagfynegydd allweddol twf i'r dyfodol, yn enwedig y rheini a gaiff eu cynhyrchu'n unol â methodoleg safonedig ar draws nifer o ardaloedd ac at ddibenion amrywiol, sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd.

- Nid yw unrhyw set o amcanestyniadau ond yn cyflwyno un dyfodol posibl.
- Maent yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol – yr oll a wna amcanestyniadau yw cymryd yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol a gweld beth a fyddai'n digwydd pe byddai'r tueddiadau hynny'n parhau. Ac os yw'r cyfnod lle caiff y tuedd ei fesur yn eithriadol, mae'n bosibl na roddir y darlun cyflawn.
- Ni chynhwysir dim elfennau polisi yn yr amcanestyniadau swyddogol, hyd yn oed os yw'r rhain eisoes yn hysbys[5].

[4] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Chwefror 2024 – Pennod 4 Lleoedd Actif a Chymdeithasol
[5] Ymysg yr esiamplau o benderfyniadau polisi sy'n hysbys inni ac y byddant yn cael effaith ar lefelau twf ond nad ydynt yn rhan o fethodoleg amcanestyniadau Llywodraeth Cymru y mae Brexit a Chynllun

1.10 Cyn profi'r gwahanol senarios twf ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, fe wnaethom edrych ar rai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar newid ar y lefel leol gan gynnwys proffil demograffig Bwrdeistref Sirol Conwy, twf economaidd; cyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol a dyheadau'r Cyngor ar gyfer y CDLl newydd.

1.11 Rydym hefyd wedi edrych ar y materion a nodwyd yn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych asesiad o lesiant lleol[6] ar gyfer a sut maent yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol a'i ddyletswyddau dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar ddyheadau llesiant ar gyfer poblogaeth fwy cytbwys sy'n cadw pobl iau yn yr ardal, sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i helpu i sicrhau hyn, ac sy'n darparu tai addas a fforddiadwy ar gyfer ein poblogaeth bresennol ac i'r dyfodol.

1.12 Cafodd y papur cefndir ei ysgrifennu gan gyfeirio at Lawlyfr Cynlluniau Datblygu[7] Llywodraeth Cymru a Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, sydd â statws cynllun datblygu[8].

1.13 Mae'r holl ddata yn dangos newid rhwng 2018 a 2033 (cyfnod y Cynllun) oni nodir yn wahanol.

1.14 Oni nodir yn wahanol, darperir y ffigurau hyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhan o'r ardal sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri.

1.15 Gan mai ond rhagamcan o'r gofynion i'r dyfodol yw'r niferoedd, ac nid cyfrif union, caiff y canlyniadau eu talgrynnu i'r 50 agosaf ar gyfer eu cyhoeddi, heblaw am yr amcanestyniad o'r gofyn blynyddol am anheddau ac ymfudo blynyddol, sy'n cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf. Caiff y niferoedd eu hadio cyn

---

Twf Uchelgais Gogledd Cymru. Er ein bod yn gwybod bod pethau'n debygol o newid oherwydd y penderfyniadau polisi hyn, nid oes gennym ffordd ddibynadwy o ddarogan *sut* y byddant yn newid nac yn union *beth* y byddant yn ei newid, ac felly ni allwn gynhyrchu amcangyfrif cadarn o dwf i'r dyfodol ar sail yr elfennau 'anhysbys' hyn a fyddai'n bodloni gofynion caeth dynodiad Ystadegau Gwladol.

[6] Cyhoeddwyd gyntaf yn 2017 a diweddarwyd yn 2022.

[7] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020, Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020

[8] Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040

eu talgrynnu, felly mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol mewn tablau yn adio i gyfansymiau'r colofnau neu'r rhesi.

## Nodyn ar ryddhad canlyniadau Cyfrifiad 2021 a'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar 2022

1.16 Dechreuodd y gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn 2018 pan oedd Cyfrifiad 2011 yn waelodlin ar gyfer mwyafrif y data demograffeg ac economaidd-gymdeithasol a oedd ar gael er mwyn ein helpu i ddeall a phroffilio Bwrdeistref Sirol Conwy a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Dyma'r data a helpodd i siapio cam Strategaeth a ffefrir o'r cynllun. Mae data o Gyfrifiad 2021[9] bellach wedi cael ei gynnwys i'r sail dystiolaeth, ac wedi ein galluogi ni i ddiweddaru adran 2 y papur hwn yn sylweddol (yn arbennig o dan y penawdau 'Proffil Demograffeg Bwrdeistref Sirol Conwy' a 'Mudo' yn adran 2) ynghyd â rhannau eraill o'r dystiolaeth sy'n dibynnu ar ddata'r Cyfrifiad neu ei allbynnau eilaidd megis amcanestyniadau poblogaeth canol y flwyddyn neu gyfraddau diweithdra.

1.17 Mae canlyniadau o Gyfrifiad 2021 yn dangos gwahaniaethau mewn strwythurau a chyfanswm poblogaeth o'i gymharu â'r waelodlin yr oeddem wedi gweithio gyda nhw yn flaenorol, yn arbennig o ran gostyngiad ym maint y boblogaeth o oedran gweithio. Mae hyn yn pwysleisio'r angen ar gyfer y strategaeth dwf i ganolbwyntio ar gynnal strwythur oedran cytbwys o fewn y boblogaeth er mwyn bodloni dyheadau'r Cyngor ar gyfer y Cynllun (gweler paragraffau 1.11 a 2.35). Mae'r addasiadau yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 i'r hyn a wyddwn am gyfanswm a strwythurau poblogaeth gwaelodlin, ag ychydig iawn o effaith ar y lefel o newid a welwyd rhwng 2018 a 2033 o fewn y strategaeth twf a ffefrir, gan fod y newidiadau wedi'u gyrru gan dwf mewn swyddi a'r effaith y caiff hynny ar niferoedd y boblogaeth ac aelwydydd, yn hytrach na chael ei siapio gan y strwythur o'r boblogaeth waelodlin ei hun.

1.18 Rhwng 20011 a 2021 cynyddodd nifer yr aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy 1,050. Y rheswm dros hyn yw, yn ogystal â newidiadau yn sgil maint y boblogaeth yn gyffredinol, mae nifer yr aelwydydd o fewn y boblogaeth hefyd yn cael ei effeithio gan y duedd hirdymor tuag at aelwydydd llai. Golyga hyn

[9] Dechreuodd data gael ei ryddhau yn ail hanner 2022 https://cy.ons.gov.uk/census

efallai y bydd angen anheddau ychwanegol er mwyn lletya twf aelwydydd dros amser, hyd yn oed pan fydd cyfanswm y boblogaeth yn gostwng.

1.19 Ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, yr allbynnau eilaidd pwysicaf o'r Cyfrifiad fydd yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, gan fod y rhain yn ffurfio'r man dechrau ar gyfer tystiolaeth am dwf. Nid yw'r rownd nesaf o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a fydd yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 yn digwydd hyd nes Hydref 2025. Canllaw Polisi Cynllunio Cymru yw y dylai strategaethau twf ddefnyddio'r amcanestyniadau swyddogol diweddaraf fel man cychwyn (gweler paragraff 1.8 uchod), ac mae'r amcanestyniadau cenedlaethol yn seiliedig ar 2018, a ddefnyddiwyd i siapio'r papur cefndir hwn, yn parhau i fod y set ddiweddaraf o amcanestyniadau. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi cyngor y dylai amcanestyniadau cenedlaethol yn seiliedig ar 2018 barhau i gael eu defnyddio fel y set ddata swyddogol ar gyfer dibenion cynllunio ymlaen, nes i'w amcanestyniadau yn seiliedig ar 2022 gael eu cyhoeddi.

1.20 Byddai oedi o ran cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd hyd nes i'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig gael eu rhyddhau, yn gwthio'r cam archwilio gan y cyhoedd o'r Cynllun yn ôl i 2026 ar y cynharaf, gan y byddai angen mwy o amser i ddehongli'r wybodaeth ar gyfer ailasesu ein strategaeth dwf. Mewn ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru, penderfynwyd symud ymlaen gyda'r ymgynghoriad ar y cam i'w archwilio gan y cyhoedd gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn osgoi mwy o oedi. Bydd gan y broses fonitro ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, sbardunau mewn lle a fydd yn rheoli'r rhyddhad o fwy neu lai o dir. Bydd y broses hon yn ystyried tystiolaeth newydd sy'n cael ei gyflwyno dros oes y Cynllun, gan gynnwys tystiolaeth newydd o'r Cyfrifiad a'r amcanestyniadau cenedlaethol newydd.

## Nodyn ar ystyried effeithiau Covid-19 ar strategaeth dwf y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

1.21 Mae hi dal yn rhy gynnar i wybod sut y bydd Covid-19 yn dylanwadu ar ddeinameg y boblogaeth hirdymor a'r effeithiau economaidd a thai o ganlyniad

i hyn. Ni chafodd rhai o'n dangosyddion allweddol ar gyfer llif poblogaeth eu rhyddhau nes Tachwedd 2023 (er enghraifft, data llif mudo mewnol a rhyngwladol) ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i astudio'r data hwn i ddeall beth mae'n ei ddangos. Gwyddwn na allwn ddibynnu ar ddata o gyfnod y pandemig (2020 a 2021) i'n helpu ni fodelu'r dyfodol tymor canolig gan na fyddwn yn gwybod beth fydd y newidiadau ymddygiadol yn debygol o fod yn y tymor hir, a pha rai sydd ond yn wyriad dros dro yn y llwybr cyn dychwelyd i batrymau cyn y pandemig. Felly mae'n well bod yn ystyriol ond eto'n ofalus wrth geisio cynllunio ar gyfer y dyfodol ar ôl Covid. Wrth gwrs, bydd unrhyw newidiadau mewn tystiolaeth yn cael eu craffu trwy'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol.

# 2 Edrych ar y dystiolaeth

## Proffil demograffig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy


2.1 Maint, siâp a nodweddion allweddol poblogaeth yr ardal yw'r man cychwyn ar gyfer gwneud dadansoddiad o dystiolaeth a allai siapio twf i'r dyfodol dros gyfnod y Cynllun. Rydym wedi darparu trosolwg o'r boblogaeth, ac yna wedi edrych yn fwy manwl ar ymfudo, gan mai hwn yw ysgogydd mwyaf unrhyw newid yn y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

2.2 Y prif ffynonellau data a ddefnyddiwyd i edrych ar broffil demograffig yr ardal yw amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r data ategol ar gydrannau newid yn y boblogaeth; ac amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sail-2018 Llywodraeth Cymru.

2.3 Amcangyfrifwyd mai maint y boblogaeth breswyl ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2024[10] oedd 114,900 o bobl. Yn y 20 mlynedd ers 2004 mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynyddu 2,600, sy'n 2.3% – ffigur cyfartalog o oddeutu 0.12% y flwyddyn, er nad yw'r cyfraddau newid wedi'u taenu'n wastad ar draws y cyfnod. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd poblogaeth Cymru 7.7% a thyfodd poblogaeth y DU 13.9%.

[10] Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a chydrannau newid y boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2024.

**Ffigur 2: strwythurau poblogaeth cymharol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, Cymru a'r DU**




Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024, ONS

2.4 Nid yw poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn adnewyddu ei hun yn naturiol oherwydd y ceir mwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn. Gyda nifer y marwolaethau ar gyfartaledd yn 1,600 bob blwyddyn, a'r genedigaethau ond yn 1,000, byddai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy 600 o bobl yn llai bob blwyddyn oni bai am fewnfudo net i'r ardal.

2.5 Mae strwythur oedran y Fwrdeistref Sirol yn llawer hŷn nag ar gyfer Cymru neu'r DU gyfan. Mae ffigur 26.7% Bwrdeistref Sirol Conwy o'r boblogaeth sy'n 66 oed a drosodd yn cymharu ag 20.5% yng Nghymru gyfan ac nid yw ond yn 17.8% ar draws y DU. Roedd oedran canolrifol y boblogaeth yn 2022 yn 50.7 oed (Cymru = 42.8; DU = 40.7). Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu o 47.7 i 50.7 oed dros y degawd diwethaf.

2.6 Mae dau ffactor yn gyfrifol yn bennaf am y cynnydd yn nifer y bobl 66 oed a drosodd; yn gyntaf, mae'r gwelliannau yn y cyfraddau marwolaethau yn golygu

bob pobl yn byw’n hirach; ac yn ail, y ffaith bod carfan fawr y ‘blynyddoedd brig babanod’ a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio.

2.7 Mae nifer y plant yn y boblogaeth wedi bod yn dirywio’n raddol dros y degawd diwethaf, gan adlewyrchu’r gostyngiad yn nifer y babanod a aned ar ddiwedd y 1990au / dechrau’r 2000au, a’r ffaith bod y cyfraddau geni isel hyn wedi dychwelyd yn y 10 mlynedd diwethaf yn fras. Mae ffigur 15.5% Bwrdeistref Sirol Conwy o’r boblogaeth sydd dan 16 oed yn cymharu â 17.1% yng Nghymru gyfan a 18.3% ar draws y DU.


2.8 Mae 57.8% Bwrdeistref Sirol Conwy o’r boblogaeth sydd rhwng 16 a 65 oed yn cymharu â 62.4% yng Nghymru gyfan a 63.9% ar draws y DU. Mae’r ffigur hwn yn gymharol isel, ac mae’n arwain at gymhareb ddibyniaeth uchel - hynny yw, cymhareb y bobl oedran gweithio i’r rheini sydd mewn egwyddor yn ‘ddibynnol’ ar y boblogaeth oedran gweithio hynny. Yn 2024 y gymhareb ddibyniaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy oedd 731 o ddibynyddion am bob 1,000 o unigolion oedran gweithio. Yng Nghymru, roedd yn 603:1,000 (mae cymhareb y DU yn 565:1,000). Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol.

2.9 Mae nifer y bobl yn y grŵp poblogaeth oedran gweithio ym Bwrdeistref Sirol Conwy yn benodol yn dioddef oherwydd allfudo ymysg oedolion ifanc yn y grŵp oedran 18-24, ac oherwydd i garfan fawr y ‘blynyddoedd brig babanod’ a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd symud allan o’r grŵp oedran gweithio wrth iddynt gyrraedd oedran ymddeol.

2.10 Mae cadw pobl ifanc yn ein hardal yn broblem fawr, gan fod yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwlch mawr yn y strwythur oedran rhwng oddeutu 18 a 45 oed. Hwn yw’r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod yn economaidd neu’n gymdeithasol symudol, gan geisio gwaith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i’r ardal. Mae llawer o bobl ifanc yn gorfod gadael yr ardal i gael addysg uwch ac er nad yw hyn ynddo’i hun yn broblem, mae methu â’u denu yn ôl i’r ardal ar ôl graddio yn arwain at genedlaethau anghytbwys.

2.11 Dengys ffigur 3 ei bod yn gwbl amlwg nad yw ein poblogaeth ar y ffurf pyramid traddodiadol, sy'n dangos llawer o blant a phobl ifanc yn y 'gwaelod' yn cefnogi 'brig' culach o bobl hŷn. Mae ein poblogaeth yn bendrwm iawn yn y grwpiau oedran hŷn. Er bod ysgogyddion demograffig eraill oll wedi cael effaith ar yr anghydbwysedd hwn yn y boblogaeth (oes ddisgwyliedig hwy, ffrwythlondeb is ac effeithiau'r blynyddoedd brig babanod ar ôl y rhyfel), mae allfudo ymysg pobl ifanc yn un o'r dylanwadau allweddol, ac yn un sy'n cael effaith ar lesiant economaidd yr ardal yn ogystal ag ar ei chyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol.

**Ffigur 3: pyramidiau poblogaeth yn dangos y bylchau yn strwythur oedran y boblogaeth rhwng 18 a 45 oed**




Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024, ONS

2.12 Mae'r isadran nesaf o'r adroddiad yn edrych yn fanylach ar y patrymau ymfudo ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

2.13 Mae amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sail-2018 Llywodraeth Cymru[11] yn rhagamcanu, erbyn diwedd cyfnod y cynllun arfaethedig yn 2033:

- os yw'r duedd twf canolog yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 121,200 – sy'n gynnydd o 4,050 (3.4%) ar 2018, sef dechrau cyfnod y cynllun.
- os yw'r duedd amrywiolyn twf is yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 118,450 – cynnydd o 1,300 (1.1%).
- os yw'r duedd amrywiolyn twf uwch yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 123,250 – cynnydd o 6,100 (5.2%).
- y daw'r cynnydd net yn y boblogaeth o fewnfudo, oherwydd y byddai newid naturiol yn unig (genedigaethau a marwolaethau) yn arwain at gwymp yn y cyfansymiau poblogaeth.
- mai yn y grŵp oedran 65+ y bydd y twf yn y boblogaeth. Y bydd nifer y bobl oedran gweithio a'r boblogaeth dan 16 oed yn gostwng.
- y rhagwelir y bydd y cymarebau dibyniaeth yn cynyddu wrth i garfan gyfan y blynyddoedd brig babanod symud i'r grŵp oedran ôl ymddeol.

### Ymfudo

2.14 Ymfudo yw'r un gydran o newid poblogaeth sy'n cael yr effaith fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol. Heb gynnydd net mewn mewnfudwyr, ni fyddai'r boblogaeth yn adnewyddu ei hun yn naturiol a byddai nifer y bobl sy'n byw yn yr ardal yn gostwng bob blwyddyn, oherwydd y ceir oddeutu 600 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn. Er hynny, mae lefelau mewnfudo yn codi ac yn gostwng o un flwyddyn i'r llall, maent yn anodd eu mesur ac yn anodd eu rhagweld.

2.15 Dros y 10 mlynedd diwethaf, bu'r mewnfudo net blynyddol cyfartalog i Fwrdeistref Sirol Conwy yn oddeutu 700 o unigolion bob blwyddyn. Mae ymfudo, fodd bynnag, yn gydran anwadal o'r newid yn y boblogaeth, ac mae wedi amrywio o -50 a +1,550 o unigolion dros yr 25 mlynedd diwethaf. Gall hon fod yn broblem benodol wrth ddefnyddio ymfudo i helpu i ragweld newid yn y boblogaeth i'r dyfodol. Gall y set o flynyddoedd a ddewisir i ddarparu

[11] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based

tuedd yn y gorffennol esgor ar ganlyniadau gwahanol iawn, fel y gwelir yn y tabl isod.

**Ffigur 4: ymfudo net cyfartalog blynyddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy dros gyfnodau pum mlynedd penodol**


| | Mudo net blynyddol ar gyfartaledd |
|---|---|
| **Canol 2019-canol 2024 – cyfartaledd pum mlynedd diweddaraf** | 940 |
| **Canol 2006-canol 2011 – cyfartaledd pum mlynedd isaf** | 420 |
| **Canol 1999-canol 2004 – cyfartaledd pum mlynedd uchaf** | 1,150 |

Ffynhonnell: cydrannau newid yn y boblogaeth ONS ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn

2.16 Er mwyn gwastatáu ychydig ar yr amrywiad hwn, wrth edrych ar strwythur oedran ymfudwyr i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y papur cefndir hwn, rydym wedi defnyddio ffigur cyfartalog dros 10 mlynedd. Mae strwythur oedran cymharol ymfudwyr mewn gwirionedd yn llawer mwy sefydlog na chyfanswm cyfrifiadau'r mewnfudo neu'r allfudo, felly mae'r cyfartaledd deng mlynedd yn rhoi arwydd da o'r patrwm ymfudo.

2.17 Ceir cynnydd net ym mhoblogaeth y rhan fwyaf o'r grwpiau oedran oherwydd mwy o fewnfudo nag allfudo. Er hynny, gwelir cynnydd mawr mewn allfudo yn y grwpiau oedran 15-29. Nid oes sefydliad addysg uwch i'w gael ym Mwrdeistref Sirol Conwy, felly mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl sydd eisiau mynd i brifysgol neu addysg uwch o fath arall yn 18 oed adael yr ardal. Hwn hefyd yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod yn economaidd ac yn gymdeithasol symudol, gan geisio gwaith a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal. Mae'r grŵp oedran hwn wedi dod yn gynyddol symudol yn y blynyddoedd diwethaf, felly mae maint ac effaith eu hallfudo wedi tyfu. Fel ffigur cyfartalog 10 mlynedd, mae'r grwpiau oedran hyn i gyfrif am 40% o'r allfudo.

**Ffigur 5: proffil oedran cyfartalog ymfudwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2014/15 i 2023/24**




Ffynhonnell: data llif ymfudo mewnol a rhyngwladol, ONS

2.18 Mae'r ymchwydd yn y proffil oedran ar gyfer mewnfudwyr yn y grŵp oedran 20-24 yn awgrymu bod rhai o'r bobl ifanc hyn yn dychwelyd i'r ardal ar ôl iddynt orffen addysg uwch. Er hynny, nid yw pawb sy'n gadael yn eu harddegau hwyr neu eu hugeiniau yn dod yn ôl i'r ardal, ac mae hyn yn dwysau proffil oedran hŷn nag arferol ein strwythur poblogaeth. Mae oddeutu 1,900 o bobl yn y grŵp oedran 15-29 yn gadael Bwrdeistref Sirol Conwy bob blwyddyn, a dim ond oddeutu 1,650 sy'n symud i mewn – sy'n ffigur allfudo net o oddeutu 250 y flwyddyn.

2.19 Er y ceir mewnfudo net ymysg pobl yn eu 30au i'w 40au, nid yw'n cydbwyso'r golled net ymysg oedolion ifanc, ac mae'n arwain at anghydbwysedd yn ein strwythur poblogaeth.

2.20 Ceir ymchwydd mewn mewnfudo net yn y grwpiau oedran cyn ymddeol - pobl rhwng 50 a 64 oed sydd i gyfrif am oddeutu 19% o'r mewnfudwyr ond nid ydynt i gyfrif ond am 12% o'r allfudwyr. Yn y 10 mlynedd diwethaf, gwelwyd

cynnydd blynyddol o 450 o bobl yn y ffigwr ymfudo net yn y grŵp oedran hwn. Mae mewnfudo net hefyd yn y grŵp oedran 65-74, ond ar gyfradd is.. Ar gyfartaledd, o 75 oed ymlaen mae'r ffigurau mewnfudo ac allfudo yn gytbwys.

**Ffigur 6: cyfran yr ymfudo ym Mwrdeistref Sirol Conwy, yn ôl grŵp oedran (ffigurau cyfartalog 2014/15 i 2023/24)**

| | Mewnfudwyr Nifer | Mewnfudwyr Canran | Allfudwyr Nifer | Allfudwyr Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm mudwyr** | 5,500 | | 4,800 | |
| **0-14 oed** | 650 | 11.8% | 550 | 11.4% |
| **15-29 oed** | 1,650 | 29.8% | 1,900 | 40.0% |
| **30-49 oed** | 1,350 | 24.8% | 1,100 | 23.1% |
| **50-64 oed** | 1,000 | 18.6% | 550 | 11.8% |
| **65-74 oed** | 500 | 9.4% | 300 | 6.8% |
| **Oed 75+** | 300 | 5.5% | 350 | 7.0% |

Ffynonellau: data llif ymfudo mewnol a rhyngwladol, ONS

2.21 Mae allfudo net ymysg oedolion ifanc yn cael effaith ddilynol ar strwythur y boblogaeth gyfan. Y bobl hyn yw sail y boblogaeth oedran gweithio sy'n sbarduno ein heconomi, nhw hefyd yw'r bobl a ddaw yn rhieni. Mae llai o enedigaethau oherwydd carfan rieni 'absennol' yn golygu llai fyth o oedolion ifanc yn y genhedlaeth nesaf, sydd wedyn yn dod yn effaith gyfansawdd ar yr anghydbwysedd oedran yn y boblogaeth.

2.22 Ochr yn ochr â'r materion a welir yn yr adran 'proffil demograffig' uchod (twf cymharol araf yn y boblogaeth o'i gymharu â lefelau cenedlaethol, strwythur poblogaeth hŷn na'r ffigur cyfartalog, cymarebau dibyniaeth uchel), mae'r patrymau ymfudo presennol yn peri problemau i ddyheadau'r ardal am boblogaeth fwy cytbwys sy'n cadw pobl ifanc yn yr ardal, sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i helpu i gyflawni hyn, ac sy'n darparu tai addas a fforddiadwy i'n poblogaeth yn awr ac i'r dyfodol.

2.23 Mae cadw poblogaeth ag oedrannau cytbwys o fantais i'r gymdeithas gyfan. Mae'r broses o gyfnewid gwybodaeth a rennir, dealltwriaeth a diwylliant rhwng cenedlaethau yn helpu i ffurfio cymuned gadarn, fywiog, arloesol ac integredig - mae 'symud â'r oes' a 'throsglwyddo doethineb' ill dau yn hanfodol i greu

cadernid cymdeithasol. Caiff rolau cefnogi a gofalu cymunedol hefyd eu meithrin drwy integreiddio rhwng y cenedlaethau, nid yn unig o fewn teuluoedd ond â chymdogion, cyfeillion a drwy wirfoddoli. Gall hon fod yn broses ddwyffordd, gyda thrigolion hŷn yn helpu â gofal a datblygiad plant yn ogystal â phobl iau yn rhoi gofal ffurfiol ac anffurfiol i drigolion hŷn.


2.24 I gyflogwyr a'r economi yn gyffredinol, mae recriwtio, cadw a datblygu pobl ifanc yn y gweithlu a'r boblogaeth ehangach yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau megis gweithlu sy'n heneiddio, bylchau mewn sgiliau a phrinder sgiliau, datblygu doniau, cynllunio ar gyfer olyniaeth a deall cwsmeriaid ac egin farchnadoedd a thueddiadau.

2.25 Dylid nodi bod sawl ffactor, nad oes gennym ddim rheolaeth drostynt yn lleol, sy'n effeithio ar ymfudo, fel polisïau economaidd cenedlaethol neu dueddiadau cymdeithasol i ymddeol dramor. Gall digwyddiadau unwaith ac am byth neu annisgwyl hefyd gael effaith fawr ar ymfudo, megis mewnlifiad ymfudwyr economaidd o Ddwyrain Ewrop a welwyd ar ôl cael mynediad i'r UE yn 2004 neu'r arafu mewn ymfudo mewnol a rhyngwladol ar ôl y dirywiad economaidd yn 2008. Mae hefyd yn anodd rhagweld beth fydd effaith digwyddiadau sy'n hysbys inni, fel Brexit, ar symudiad y boblogaeth. Yn ogystal â hynny, nid wyddwn eto pa newidiadau o ran ymddygiad y boblogaeth o ganlyniad i Covid-19 fydd yn hirdymor a pha rai fydd dros dro. Mae angen inni felly fod yn ofalus wrth geisio dehongli tueddiadau ymfudo.

### Y gofyn am anheddau a'r anheddau a gwblhawyd yn y gorffennol

2.26 Er bod y cyflenwad tir yn effeithio ar y cyfraddau cwblhau ar gyfer anheddau tai newydd, ac y gallent fod yn cael eu cyfyngu gan gyfyngiadau dyrannu tai yn y Cynllun Datblygu presennol, mae'n werth edrych ar gyfraddau adeiladu blynyddol y gorffennol i gael teimlad am y tueddiadau dros y degawd diwethaf yn fras. Mae'n bosibl i'r ffigurau hefyd fod yn fan cychwyn ar gyfer deall capasiti'r diwydiant adeiladu i ymdopi â newidiadau yn y gofynion blynyddol am anheddau newydd sy'n cael eu hawgrymu gan opsiynau twf y CDLl.

**Ffigur 7: anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy**




Darperir y ffigurau hyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhan o'r ardal sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri. Y ffigur cwblhau anheddau cyfartalog yn y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sy'n syrthio o fewn APCE oedd 4 y flwyddyn rhwng 2010/11 a 2024/25.

Roedd casglu data ar dai a gwblhawyd yn 2019/20, 2020/21 a 2021/22 wedi'i effeithio gan bandemig Covid 19.


Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

2.27 Dengys ffigur 7 y cyfraddau cwblhau blynyddol dros y 15 mlynedd diwethaf ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, a'r rhan honno o Barc Cenedlaethol Eryri sy'n syrthio tu mewn i ffin Bwrdeistref Sirol Conwy. Gwelwyd gostyngiad mawr yn nifer y tai a adeiladwyd yn dilyn y dirywiad economaidd byd-eang yn 2007/08, ac ni ddangoswyd adferiad hyd at ddiwedd 2010au. Mae nifer y tai a gwblhawyd wedi bod yn is na'r disgwyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd effeithiau parhaus oedi pandemig Covid, ansicrwydd ynghylch hyfywedd ariannol oherwydd costau adeiladu cynyddol, a datblygwyr mawr sy'n gweithredu yn yr ardal yn wynebu anawsterau ariannol. Yn fwy diweddar, mae datblygiadau mawr yn dechrau symud ymlaen, gyda gwaith daear ac adeiladu anheddau newydd ar y gweill ar y safle. Disgwylir i nifer y tai a gwblhawyd

godi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae gan lwybr tai'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ragor o wybodaeth am hyn.[12].

2.28 Mae ffigur 8 yn cymharu'r opsiwn twf a ffefrir a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gydag amrywiol fesurau o'r tai a gwblhawyd yn y gorffennol. Gweler adrannau 4 a 5 am ragor o fanylion.

**Ffigur 8: y gofyn am anheddau: ffigur cyfartalog blynyddol ar gyfer yr opsiynau twf, gyda data cymharol ar gyfer tai a gwblhawyd yn y gorffennol**




Darperir y ffigurau hyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhan o'r ardal sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri. Y ffigur cwblhau anheddau cyfartalog yn y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sy'n syrthio o fewn APCE oedd 4 y flwyddyn rhwng 2010/11 a 2024/25.

Roedd casglu data ar dai a gwblhawyd yn 2019/20, 2020/21 a 2021/22 wedi'i effeithio gan bandemig Covid 19.

Ffynonellau: arolygon tir ar gyfer tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sail-2018, llywodraeth Cymru; amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth sail-2018, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

[12] http://www.conwy.gov.uk/cdlln

2.29 Mae'r gallu i ddarparu tir ar gyfer tai, ynghyd â'r cyflenwad cyffredinol a'r effeithiau amgylcheddol hefyd yn faterion y mae angen eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer twf. Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn i'w chael yn y papurau cefndir", "Asesiad o'r Gallu i Ddarparu Safleoedd" a'r "Cyflenwad Tir ar gyfer Tai"[13].

### Twf economaidd

2.30 Yn ychwanegol at ystyried twf y boblogaeth ac aelwydydd, fe wnaethom hefyd edrych ar y ffactorau economaidd y gallent effeithio ar newid yn y Fwrdeistref Sirol.

2.31 Un rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth yw Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy (ELR) a wnaed gan Lichfields Planning Consultants ym mis Awst 2018[14]. Mae'r ELR yn edrych y tu hwnt i ffiniau Conwy ac yn archwilio'r tueddiadau cenedlaethol a'r ysgogyddion rhanbarthol ar gyfer twf economaidd hyd at 2033. Defnyddiwyd set ddata Experian, sy'n offeryn allweddol cydnabyddedig i lywio sail tystiolaeth y CDLl ar draws Cymru a Lloegr, fel sail ar gyfer cyfrifiadau Lichfield. Fe wnaeth yr ELR gynhyrchu saith senario twf economaidd ar sail rhagamcanion am y llafurlu, prosiectau twf rhanbarthol, polisïau lleol, amcanestyniadau poblogaeth a'r tueddiadau yn y gorffennol o ran defnyddio tir ar gyfer cyflogaeth[15]. Cafodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth ei adolygu a'i ddiweddaru yn Hydref 2020 ac Awst 2021[16].

2.32 Mae un o'r senarios twf economaidd diwygiedig a gynhyrchwyd gan Lichfields wedi cael ei ddefnyddio i ffurfio'r opsiwn twf a gyflwynir yn y papur hwn. Dewiswyd opsiwn twf a oedd yn cynnig 1,450 o swyddi ychwanegol[17] dros gyfnod y Cynllun gan ddynodi graddfa eang a chyfeiriad twf economaidd ar draws sectorau gwahanol yn yr ardal, ac oherwydd ei fod yn rhoi ystyriaeth i

---

[13] http://www.conwy.gov.uk/cdlln
[14] Mae'r astudiaeth ELR, a gomisiynwyd gan Lichfields Planning Consultants, ar gael fel rhan o'r dystiolaeth gefndir ar gyfer y CDLl http://www.conwy.gov.uk/cdlln
[15] Mae methodoleg Lichfields yn rhagweld cyfanswm y swyddi ychwanegol dros y cyfnod 15 mlynedd, yna'n nodi'r swyddi hynny a fyddai'n cael eu priodoli i ddefnyddiau dosbarth B. Caiff cymarebau safonol swyddi i ofod llawr eu cymhwyso i'r ffigur hwn i wneud rhagolwg o'r gofynion tir ar gyfer pob senario. Dechreuodd un senario â'r gofyn am dir yn seiliedig ar gyfraddau defnydd tir cyflogaeth y gorffennol.
[16] Mae mwy o wybodaeth am yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig a newidiadau i'r strategaeth dwf ar gael ym mhapur cefndir 18 Adolygiad Tir Cyflogaeth http://www.conwy.gov.uk/cdlln
[17] 1,500 o swyddi ychwanegol yn cynnwys y Parc Cenedlaethol.

effaith nifer o brosiectau rhanbarthol mawr sydd eisoes yn mynd rhagddynt neu a fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

### Dyheadau'r Cyngor ar gyfer y CDLl newydd ar gyfer 2018-2033

2.33 Wrth wraidd y CDLl y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych[18]. Mae'r dystiolaeth gefndir gyfredol a'r adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd wedi nodi'r amcanion â blaenoriaeth, y dyheadau a'r amcanion y bydd y CDLl yn gweithio'n unol â nhw. Mae'r rhain i'w gweld ym 'Mhapur Ymgynghori 1: Materion â Blaenoriaeth, y Weledigaeth a'r Amcanion' a'r dogfen y Strategaeth a Ffefrir.

2.34 Adlewyrchwyd dyheadau'r Cyngor wrth ystyried yr amryw o ddewisiadau twf ar gael. Mae'r dewis twf a ddewiswyd yn annog twf yn seiliedig ar yr angen i hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys a chynaliadwy yn ein cymunedau, lleihau teithio i'r gwaith, darparu ar gyfer gofynion lleol a nodir ym Margen Dwf Gogledd Cymru ac yn sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy ar draws ardal y cynllun. Mae'r strategaeth yn ceisio creu llefydd cynaliadwy trwy strwythur oedran mwy cytbwys drwy ddarparu'r lefel gywir o dai a thwf cyflogaeth a'r isadeiledd angenrheidiol i annog y boblogaeth iau i aros a dychwelyd i'r ardal, ond hefyd i ddarparu cymunedau cynaliadwy i bobl hŷn fyw bywydau iach ac egnïol.

2.35 Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2022-27[19] yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor dros y pum mlynedd nesaf. Mae dau o'i flaenoriaethau yn hynod o berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

- Nod hirdymor 3: Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ffyniannus sydd â llai o dlodi, ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau.
- Nod hirdymor 4: Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.

2.36 Mae polisi 21 Cymru'r Dyfodol[20] yn dynodi Llandudno a Bae Colwyn fel ardal dwf rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'n nodi:

---

[18] https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/cynllun-lles-lleol/
[19] http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/CorporatePlan/Home.aspx
[20] https://www.llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040

> “Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod y rolau y mae'r lleoedd hyn yn eu chwarae fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwyntiau ar gyfer twf isranbarthol”.

Mae’r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn nodi blaenoriaethau economaidd yn y dyfodol. Mae gan Gynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy rôl allweddol i’w chwarae i siapio a chefnogi’r fframwaith a Bargen Dwf Gogledd Cymru.

2.7 Mae Bargen Dwf Gogledd Cymru wedi cael ei baratoi gan Bartneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru, sy’n cynnwys rhanbarth Gogledd Cymru. Mae’r bartneriaeth yn cynnwys Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, a dau goleg addysg bellach Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Nod y fargen dwf yw gwella capasiti ac effaith economaidd y rhanbarth mewn darpariaeth tir ac eiddo, cynhyrchu a defnyddio ynni, sgiliau cyflogaeth, cludiant, twristiaeth antur a thechnoleg a chysylltedd digidol. Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw ceisio cyfateb dyheadau sy’n gysylltiedig â’r strategaeth dwf hon, gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Chynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych. Yr amcanion sydd fwyaf perthnasol i’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw:

- Amcan Strategol 1.
- Amcan Strategol 2.
- Amcan Strategol 3.
- Amcan Strategol 7.
- Amcan Strategol 8.
- Amcan Strategol 9.
- Amcan Strategol 10.
- Amcan Strategol 11.
- Amcan Strategol 13.

# 3 Y opsiynau twf y rhoddwyd ystyriaeth iddynt

3.1 Defnyddiwyd y dystiolaeth i helpu i siapio'r ystod eang o wahanol senarios twf yr edrychom arnynt cyn setlo ar y pump a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

3.2 Wrth fynd ati i ragamcanu twf i'r dyfodol, ceir tri phrif ffactor sy'n gallu ysgogi gwaith amcanestyniadau - newid demograffig, newid yn nifer yr anheddau newydd a newid yn y ddarpariaeth gyflogaeth. Mae'r tri ffactor yn rhyng-gysylltiedig - gall cynnydd mewn cyflogaeth yn yr ardal arwain at fewnfudo ac felly dwf yn y boblogaeth, sy'n gofyn am ddarpariaeth dai ychwanegol, neu gall diffyg darpariaeth dai ddigonol achosi i bobl symud allan o'r ardal, gan fynd â'u sgiliau cyflogaeth gyda nhw gan atal cyflogwyr rhag datblygu yn yr economi leol. Rydyn ni'n ceisio cydbwyso'r tair elfen dwf ond ni allwn bob amser wneud hynny yn yr ymarferiad ystadegol o gynhyrchu amcanestyniadau, oherwydd bod wastad ysgogydd twf cryfach i'w gael.

3.3 Rhan o'r gwaith o ragamcanu ar gyfer tai a'r boblogaeth fu cyfrifo nifer y swyddi (cyfrifiad dwysedd swyddi) sy'n ofynnol i fodloni'r cynnydd amcanestynedig yn y boblogaeth yn y Sir dros gyfnod y Cynllun. Gwneir hyn er mwyn inni allu rhoi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ein bod, o'r dechrau un, wedi ystyried y berthynas rhwng niferoedd tai, cyflogaeth a lefel y dyraniadau tir cyflogaeth sy'n ofynnol. Cymeradwywyd y dull hwn gan yr Arolygiaeth yn archwiliad Gorllewin Swydd Gaer a Chaer[21] o'u strategaeth graidd, a hefyd gan yr Arolygydd a oedd yn archwilio CDLl Casnewydd[22], ac er eu bod yn cydnabod nad yw'r tair elfen hyn yn cydweddu'n berffaith, mae yn bwysig, er hynny, ein bod yn dangos tystiolaeth o'u perthnasoedd.

3.4 Dim ond un amcanestyniad a gyflwynir yn y papur hwn, a dyma yw dewis twf y Cyngor ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'n amcanestyniad sy'n cael ei arwain gan gyflogaeth. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar ystod eang o amcanestyniadau cyn i ni gyrraedd y cam hwn.

---

[21] Adroddiad Arolygiaeth Cynllun Lleol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (Rhan Un), Paragraff 50 a 51 http://consult.cheshirewestandchester.gov.uk/portal/cwc_ldf/cwc_lp/localplanexamination/examination

[22] Adroddiad arolygwyr CDLl Casnewydd, paragraff 3.18 – 3.23 http://www.newport.gov.uk/documents/Planning-Documents/LDP-2011-2026/Newport-LDP---Inspectors-Report---515474.pdf

## Amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth

3.5 Mae amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth fel arfer yn dibynnu naill ai ar ragamcanion o'r gofynion ar gyfer tir cyflogaeth neu niferoedd swyddi fel man cychwyn ar gyfer twf i'r dyfodol. Caiff effeithiau'r boblogaeth ac aelwydydd eu cyfrifo drwy ddefnyddio methodoleg adrifo'n ôl, sy'n addasu cydrannau o newid yn y boblogaeth (lefelau ymfudo yn bennaf ymysg y boblogaeth oed gweithio a'u dibynyddion) fel bod twf swyddi yn cyfateb i lefelau twf y boblogaeth.

- Roedd yr opsiynau twf yr edrychom arnynt yn wreiddiol yn seiliedig ar ragolygon twf economaidd a thystiolaeth arall a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad o dir cyflogaeth (ELR)[23], a'r dyheadau ar gyfer twf a gyflwynwyd yn Strategaeth Twf Economaidd Conwy.
- Cynigiai'r ELR ystod o wahanol senarios twf gwahanol yn seiliedig ar ddadansoddiad fesul sector o dueddiadau i'r gorffennol mewn defnyddio tir cyflogaeth ac amcanestyniadau o dwf swyddi i'r dyfodol.
- Dewiswyd dau o'r amcanestyniadau hyn i'w hystyried fel rhan o'r cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd.
- O ganlyniad i'r ymgysylltu hwn, amcanestyniad seiliedig ar dwf swyddi o +1,800 dros cyfnod y Cynllun (+1,850 yn cynnwys y Parc Cenedlaethol) ei ddewis fel yr opsiwn twf a ffefrir ar gyfer cam ymgynghori Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cyflwynwyd yr amcanestyniad hwn yn y fersiwn o'r Papur Cefndir hwn ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2019.
- Roedd y diweddariadau i'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn Hydref 2020 ac Awst 2021 yn adolygu'r Ffigwr hwn, ac mae'r strategaeth dwf a gyflwynir yn y papur hwn i gefnogi'r cam i'w archwilio gan y cyhoedd o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, yn seiliedig ar dwf swyddi o +1,450 dros gyfnod y Cynllun (+1,500 gan gynnwys y Parc Cenedlaethol)[24].

[23] Mae'r astudiaeth ELR, a gomisiynwyd gan Lichfields Planning Consultants, ar gael fel rhan o'r dystiolaeth gefndir ar gyfer y CDLl http://www.conwy.gov.uk/cdlln
[24] Mae mwy o wybodaeth am yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig a newidiadau i'r strategaeth dwf ar gael ym mhapur cefndir 18 Adolygiad Tir Cyflogaeth http://www.conwy.gov.uk/cdlln

### Amcanestyniadau a arweinir gan y boblogaeth

3.6 Mae amcanestyniadau a arweinir gan y boblogaeth yn defnyddio rhagamcan o'r newid yn y boblogaeth fel man cychwyn ar gyfer twf i'r dyfodol. Mae sawl elfen mewn newid yn y boblogaeth y gellir eu haddasu i roi darluniau gwahanol o'r boblogaeth i'r dyfodol. Yr elfennau y tueddir i'w defnyddio amlaf i lunio gwahanol senarios twf yw amrywiadau mewn tueddiadau ymfudo a chyfraddau natur aelwydydd, ond gellir amrywio strwythurau oedran y boblogaeth a chyfraddau beichiogrwydd a marwolaethau hefyd er mwyn edrych ar y gwahanol agweddau ar newid yn y boblogaeth.

- Amcanestyniadau tueddiadau ymfudo 5 mlynedd a 10 mlynedd, sail-2014 Llywodraeth Cymru oedd y man cychwyn ar gyfer ystyried effeithiau cyflogaeth ac anheddau ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ynghyd â thystiolaeth arall am y boblogaeth, dyheadau a thwf cyflogaeth a thai.
- Ochr yn ochr â hyn, edrychom ar amcanestyniadau eraill seiliedig ar dueddiadau ymfudo. Yn fewnol, cynhyrchwyd hefyd ystod o amcanestyniadau newydd a arweinir gan ymfudo, gan ddefnyddio data a oedd yn diweddaru'r flwyddyn sylfaen ar gyfer amcanestyniadau i 2017 gan ddefnyddio data a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018[25]. Cynhyrchwyd amcanestyniadau a oedd yn defnyddio'r union yr un fethodoleg ag amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r rheini a oedd yn defnyddio model tuedd ar gyfer ymfudo.
- Cyhoeddwyd set newydd o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2018 gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2020[26]. Cafodd y data newydd a gyflwynwyd, a'r newidiadau mewn tueddiadau demograffeg a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcanestyniadau rhain, eu hystyried ar y cyd â chanlyniadau'r diweddariad i'r Adolygiad Tir Cyflogaeth a gwblhawyd yn Hydref 2020. Fe helpodd y rhain i lywio'r diweddariad ar gyfer yr opsiwn twf a ffefrir o'i gymharu â'r Strategaeth â Ffefrir, a chyfeirir atynt yn y papur hwn fel

[25] Y data cyhoeddedig diweddaraf adeg cyhoeddi'r dystiolaeth ar gyfer y cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd ym mis Rhagfyr 2018.
[26] https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-or-boblogaeth-sail-2018; https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-o-aelwydydd-sail-2018

y man cychwyn ar gyfer ystyried effeithiau cyflogaeth ac anheddau ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

## Amcanestyniadau a arweinir gan anheddau

3.7 Mae amcanestyniadau a arweinir gan anheddau yn defnyddio cyfraddau adeiladu tai newydd fel man cychwyn ar gyfer twf i'r dyfodol.

- Roedd yr opsiynau twf a arweinir gan anheddau yr edrychom arnynt yn cynnwys senarios yn seiliedig ar nifer o gyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol yn ôl i 2001/02.
- Fe wnaethom hefyd gynhyrchu amcanestyniadau yn seiliedig ar ffigurau anghenion tai fforddiadwy blynyddol y Farchnad Dai Leol 2017 ynghyd â thybiaeth o ddarparu 20% i gyfrifo'r angen cyffredinol.

3.8 Rhoddwyd ystyriaeth i amrywiadau twf eraill ond ni chawsant eu datblygu'n amcanestyniadau llawn. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiadau yn seiliedig ar dueddiadau cwblhau tai'r gorffennol (roedd peidio ag olrhain y rhain fel amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth ac a arweinir gan y boblogaeth a gynhyrchwyd eisoes yn rhoi lefelau twf tai cymaradwy) ac amrywiadau ar gyfraddau natur aelwydydd (nas olrheiniwyd gan nad oes tystiolaeth gadarn i'w chael i gefnogi amrywiad oddi wrth y cyfraddau a gynhyrchwyd yn swyddogol).

3.9 Cynhyrchwyd cyfanswm o hugain o opsiynau twf cyn dethol yr opsiwn twf a ffefrir a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae tabl sy'n rhoi mwy o fanylion y ddadl dros ac yn erbyn pob senario twf i'w weld yn atodiad 2.

# 4 Opsiwn twf a ddewiswyd

4.1 Allan o’r ystod o amcanestyniadau a gynhyrchwyd ar gyfer y cam ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol y broses Cynllun Datblygu Lleol Newydd, dewiswyd pump fel y cynrychioliadau mwyaf cadarn o’r dystiolaeth yn adran 3, ac sydd hefyd yn cefnogi dyheadau’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Amcanestyniadau a arweinir gan y boblogaeth oedd tri o’r opsiynau twf a defnyddiant fethodoleg amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru fel man cychwyn, ond eu bod yn defnyddio tueddiadau a rhagdybiaethau gwahanol o safbwynt twf i’r dyfodol. Roedd y ddau senario twf ychwanegol yn cael eu harwain gan gyflogaeth ac yn deillio o’r wybodaeth yn yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ELR) a Strategaeth Twf Economaidd y Cyngor.

4.2 O ganlyniad i'r ymgysylltu hwn, amcanestyniad seiliedig ar dwf swyddi ei ddewis fel yr opsiwn twf a ffefrir a'r sail y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

4.3 Cafodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth ei adolygu a’i ddiweddaru yn Hydref 2020 ac Awst 2021. O ganlyniad cafodd yr amcanestyniadau twf dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir eu hadolygu. Mae’r amcanestyniadau diwygiedig hyn yn sail ar gyfer y papur a’r fersiwn hwn a gyflwynwyd i gefnogi’r cam i’w archwilio gan y cyhoedd o’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd[27].

4.4 Mae nhw’n amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth. Mae hynny'n golygu twf swyddi yw prif yrrwr newid yn y boblogaeth dros y cyfnod. Cynigir y Senario Experian – Dewis Twf Swyddi Diwygiedig o +1,450 o swyddi (+1,500 o swyddi yn cynnwys y Parc Cenedlaethol) yn Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ELR) Conwy. Mae’n seiliedig ar fodel Chwarterol Rhagolygon Marchnad Leol y Deyrnas Gyfunol a gynhyrchodd Experian UK sy’n ystyried strwythur economaidd presennol pob Awdurdod Lleol (wedi’i ddadansoddi yn ôl sectorau economaidd) a’r berthynas yn y gorffennol rhwng perfformiad rhanbarthol diwydiant penodol a’r perfformiad a welwyd ar lefel Awdurdod

[27] Mae mwy o wybodaeth am yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig a newidiadau i’r strategaeth dwf ar gael ym mhapur cefndir 18 Adolygiad Tir Cyflogaeth http://www.conwy.gov.uk/cdlln

Lleol. Mae’r dewis hwn o ran twf hefyd yn golygu y gellir darparu mwy o dai fforddiadwy a bod y twf cyffredinol mewn tai yn dal yn gynaliadwy.

4.5 Mae’r fethodoleg ar gyfer y senario twf hwn yn wahanol i’r fethodoleg amcanestyniadau draddodiadol a arweinir gan ymfudo a ddefnyddir yn amcanestyniadau is-genedlaethol Llywodraeth Cymru. Caiff effeithiau’r boblogaeth, aelwydydd ac anheddau eu cyfrifo drwy ddefnyddio methodoleg adrifo’n ôl sy’n addasu cydrannau newid yn y boblogaeth (lefelau ymfudo’n bennaf ymysg y boblogaeth oedran gweithio a’u dibynyddion) i sicrhau bod twf swyddi yn cyfateb i lefelau twf y boblogaeth

4.6 Wrth ddewis yr opsiynau twf a gyflwynir yn y papur cefndir hwn, roedd dyheadau llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer poblogaeth fwy cytbwys sy’n cadw pobl iau yn yr ardal, sy’n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i helpu i sicrhau hyn, ac sy’n darparu tai addas a fforddiadwy ar gyfer ein poblogaeth yn awr ac i’r dyfodol yn un o’r prif ystyriaethau.

### Cyfiawnhad dros gefnogi’r dewis twf hwn

4.7 Mae’n rhoi twf anheddau sydd o fewn ystod y ffigurau cwblhau diweddar – oddeutu 3,600 o anheddau newydd dros gyfnod y Cynllun neu ffigur cyfartalog o oddeutu 240 bob blwyddyn (3,700 o anheddau newydd yn cynnwys y Parc Cenedlaethol).

4.8 Mae’r cymarebau dibyniaeth yn is nag ar gyfer amcanestyniadau a arweinir gan ymfudo.

4.9 Mae twf swyddi o 1,450 yn helpu i gyd-fynd â’r dyheadau am dwf economaidd yr ardal neu 1,500 o swyddi newydd yn cynnwys y Parc.

4.10 Mae mewnfudo sy’n cael ei sbarduno gan swyddi yn arwain at dwf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi’r dyheadau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys.

### Dadleuon yn erbyn gefnogi'r dewis twf hwn

4.11 Nid yw'r amcanestyniad yn cyd-fynd â ffigurau sy'n seiliedig ar dueddiadau poblogaeth – er na fyddai disgwyl iddo wneud hynny, gan eu bod yn mesur tueddiadau gwahanol.

4.12 Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol.

4.13 Mae dull modelu adrifo'n ôl ar dueddiadau'n tybio na fydd ymddygiadau na ffactorau sbarduno yn newid, ac nid yw'n darparu'n ddigonol ar gyfer y ffactorau 'atynnu' a allai arwain at allfudo (neu gyfyngu ar fewnfudo).

# 5 Beth mae'r opsiwn twf a ffefrir yn ei ddangos

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y newid yn y cyfansymiau poblogaeth, swyddi ac aelwydydd dros gyfnod y Cynllun, ac mae hefyd yn edrych ar y goblygiadau o ran tir cyflogaeth, cymysgedd tai ac anheddau sy'n codi yn sgil y newidiadau hyn.

5.2 Darperir yr holl ddata ar gyfer newid rhwng 2018 a 2033 (cyfnod y Cynllun) oni nodir yn wahanol.

5.3 Oni nodir yn wahanol, darperir y ffigurau hyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhan o'r ardal sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri.

## Newid yn y boblogaeth

5.4 Mae'r amcanestyniadau yn dangos twf poblogaeth dros gyfnod y Cynllun o 4,950 (4.2%). Yn y 15 mlynedd hyd at 2018 (dechrau cyfnod y Cynllun) cynyddodd poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy 2.8%.

**Ffigur 9: amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (tabl ffigurau)**

| Newid 2018-2033 | |
|---|---|
| **Nifer** | 4,950 |
| **Canran** | 4.2% |
| **Ymfudo net cyfartalog blynyddol** | 1,050 |
| **Cynnydd a achosir gan** | |
| **Newid naturiol** | -10,800 |
| **Ymfudo** | 15,750 |

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.5 Ymfudo yw'r ffactor sy'n sbarduno'r newid mwyaf. Mae'r lefelau ymfudo yn amrywio bob blwyddyn yn ddibynnol ar dueddiadau penodol i oedran/rhyw ac effaith ymfudo ar nifer y bobl oedran gweithio sydd eu hangen i lenwi'r swyddi newydd sy'n cael eu creu. Ffigurau cyfartalog dros gyfnod y cynllun yw'r


ffigurau ymfudo net, a gallai'r ffigurau blynyddol fod yn uwch neu'n is na'r ffigur cyfartalog hwn ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol.

5.6 Nid yw'r ffigurau newid naturiol a gyflwynir yn y tabl hwn yr un fath ag a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan senario amcanestyniadau newid naturiol (dim ymfudo) - mae'r ffigurau genedigaethau a marwolaethau yn cynnwys pobl sydd wedi symud i'r ardal yn ystod y cyfnod. Erbyn 2033 bydd yn cynnwys mesurau o'r digwyddiadau bywyd hyn sy'n digwydd i'r holl bobl sydd wedi symud i'r ardal er 2018 ac nid dim ond y boblogaeth a oedd yn preswylio yma ar ganol 2018.

5.7 Cyfeirir at amcanestyniadau swyddogol 2018 Llywodraeth Cymru yn ffigur 10 a dadansoddiad canlynol, i roi syniad i ni o sut y gall y amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiwn twf a ffefrir helpu i ailgydbwyso strwythur poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae lefelau twf ar gyfer 15 mlynedd cyn cyfnod y Cynllun hefyd wedi'u cynnwys yn ffigwr 10 i gymharu â lefelau twf poblogaeth yn y gorffennol.

5.8 Mae'r opsiwn twf a ffefrir yn rhoi cyfanswm poblogaeth sy'n uwch na'r hyn a ddangosir gan y prif amcanestyniad o amcanestyniadau 2018 Llywodraeth Cymru (twf cyffredinol o 4.2% o'i gymharu â 3.4% dros 15 mlynedd y Cynllun), gyda mwyafrif o'r gwahaniaeth yn sgil rhagolygon o gadw/denu pobl oedran gweithio o fewn yr ardal yn sgil senario twf yn seiliedig ar swyddi.

**Ffigur 10: newid poblogaeth amcangyfrifedig ag amcanestyniadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy dros gyfnod y Cynllun a'r 15 mlynedd blaenorol**




Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, Llywodraeth Cymru; amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth sail-2018, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.9 Mae gan yr amcanestyniadau swyddogol a'r opsiwn twf a ffefrir twf strwythurau oedran sy'n hŷn na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru; mae hyn i'w ddisgwyl ac ystyried strwythur oedran cyfredol Bwrdeistref Sirol Conwy. Fodd bynnag, erbyn 2033 mae'r cymhareb dibyniaeth[28] yn isaf â'r amcanestyniad a arweinir gan gyflogaeth (812:1,000 ar gyfer yr opsiwn twf a ffefrir o gymharu ag 818: 1,000 ar gyfer prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru). Mae'r amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth yn annog mwy o fewnfudo ymysg grwpiau oedran iau – yn bennaf ymysg pobl oedran gweithio, ond caiff hefyd effaith ar nifer y plant yn y boblogaeth gan fod pobl oedran gweithio, wrth gwrs, yn fwy tebygol o fod neu ddod yn rhieni na'r grwpiau oedran hŷn. Bydd y DU gyfan (fel y rhan fwyaf o'r byd gorllewinol) yn gweld strwythurau oedran yn

[28] Cymhareb ddibyniaeth – nifer y bobl yn y boblogaeth nad ydynt mewn oed gweithio ar gyfer pob 1,000 o bobl oedran gweithio. Caiff poblogaeth oedran gweithio ei diffinio fel y rheini sydd rhwng 16 a 66 erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.

mynd yn hŷn a chymarebau dibyniaeth yn cynyddu yn yr un cyfnod ag y mae carfan y blynyddoedd brig babanod yn symud allan o'r grŵp oedran gweithio.

5.10 Erbyn canol y 2030au (yn union ar ôl diwedd cyfnod y Cynllun), mae'r poblogaeth yn dangos gostyngiad yn y grwpiau oedran hŷn (yn enwedig 75+) wrth inni ddechrau gweld carfan fawr y blynyddoedd brig babanod ar ôl yr 2il Ryfel Byd (a aned rhwng canol y 1940au a dechrau'r 1960au) yn darfod. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth gynllunio yn y tymor hwy ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio (gweler adran 2 'Edrych ar y dystiolaeth: proffil demograffig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy' am ragor o wybodaeth).

### Twf aelwydydd

5.11 Ceir amcanestyniadau aelwydydd drwy dynnu poblogaethau sefydliadol[29]o'r amcanestyniadau poblogaeth ac yna rhannu'r boblogaeth sy'n weddill rhwng y mathau o aelwydydd, ar sail y tebygolrwydd penodol i oedran/rhyw eu bod yn aelod o wahanol fathau o aelwydydd.

5.12 Mae cyfraddau aelodaeth aelwydydd yn dal i newid ar yr un gyfradd ag y gwnaethant rhwng 2001 a 2011. (Mae cyfraddau aelodaeth aelwydydd yn dangos y tebygolrwydd bod pobl o wahanol oedrannau a rhywiau yn ffurfio aelwydydd o wahanol fathau, megis aelwydydd un unigolyn neu aelwydydd dau oedolyn + dau o blant).

[29] Poblogaethau sefydliadol (neu sefydliad comiwnol) yw pobl nad ydynt yn byw fel rhan o aelwyd. Nid yw ond yn cyfrif y rheini y disgwylir iddynt fyw mewn sefydliad comiwnol am chwe mis neu fwy. Mae'n cynnwys cartrefi gofal, ysbytai, ysgolion preswyl, carchardai, lletyau nyrsys, gwestai/gwely a brecwast sydd â lle i 10 neu ragor o westeion, lletyau gwarchod lle mae gan lai na hanner yr unedau gyfleusterau coginio a/neu lle bo'r prif bryd yn cael ei ddarparu yn gomiwnol, a'r holl lletyau a ddarperir yn unig ar gyfer myfyrwyr (neuaddau preswyl preifat neu sy'n eiddo i brifysgolion, pentrefi myfyrwyr neu fflatiau/dai clwstwr). Nid yw'n cynnwys tai y mae landlordiaid preifat yn eu rhentu i fyfyrwyr.

**Ffigur 11: amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy**

| Newid 2018-2033 | |
|---|---|
| **Nifer** | 3,350 |
| **Canran** | 6.4% |
| **Maint cyfartalog aelwydydd 2033** | 2.117 |
| **Cynnydd a achosir gan** | |
| **Dwf yn y boblogaeth** | 3,800 |
| **Newid ym maint cyfartalog aelwydydd** | -450 |

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.13 Dengys yr amcanestyniadau o 3,350 yn nhwf aelwydydd dros gyfnod y Cynllun (6.4%).

5.14 Mae'r cyfraddau twf aelwydydd yn uwch na'r cyfraddau twf poblogaeth. Y rheswm am hyn yw, yn ogystal â chynyddu oherwydd twf yn y boblogaeth, mae'r tuedd hirdymor tuag at aelwydydd llai hefyd yn effeithio ar nifer yr aelwydydd yn y boblogaeth. Mae'r ddwy res olaf yn ffigur 11 yn dangos effaith gymharol y ddau fath o newid.

## Gofynion anheddau

5.15 Wrth drosi amcanestyniadau aelwydydd yn ofyn am anheddau, caniateir ar gyfer oddeutu 8.9% o anheddau gwag ac ail gartrefi/cartrefi gwyliau. Gwneir hyn oherwydd bod angen darparu mwy o anheddau nag sydd o aelwydydd i ganiatáu ar gyfer corddi yn y farchnad dai a gwneud darpariaeth i aelwydydd 'cudd' posibl gael eu lletya. Mae rhan o'r 8.9% hwn yn lwfans ar gyfer cartrefi gwyliau/ail gartrefi o fewn y stoc anheddau. Mae darpariaeth barhaus o'r math hwn o lety yn gyfrannwr pwysig i'r economi leol, sy'n dibynnu'n drwm ar y diwydiant twristiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell lwfans cyfartalog tybiannol ar draws Cymru o tua 4%, gydag ystod rhwng 3% a 13% yn ddibynnol ar dystiolaeth leol[30].

5.16 Mae'r gyfradd o 8.9% yn unol â thueddiadau'r gorffennol gan fod cyfraddau o Gyfrifiadau Poblogaeth 2001 a 2011 yn 6.7% ac 8.9% yn y drefn honno. Nid

[30] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru argraffiad 3, Mawrth 2020 (para 5.37-5.38)

oes data cymaradwy o Gyfrifiad 2021 ar gael eto. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhapur cefndir 52: Ail gartrefi ac unedau gwyliau tymor byr [31].

**Ffigur 12: gofynion anheddau newydd ar gyfer yr opsiynau twf ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy**

| **Newid 2018-2033** | |
|---|---|
| **Gofyniad anheddau BSC** | 3,700 |
| **Gofyniad anheddau ac eithrio PCE*** | **3,600** |
| **Ynghyd â thai wrth gefn** | 720 |
| **Cyfanswm gofyniad ac eithrio PCE*** | 4,300 |
| **Y gofyn blynyddol cyfartalog** (ac eithrio ffigur wrth cefn) | 240 |

* Y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri.

Gan mai ond amcanestyniad o'r gofynion i'r dyfodol ac nid cyfrif union yw'r niferoedd, caiff y canlyniadau eu talgrynnu i'r 50 agosaf ar gyfer eu cyhoeddi, heblaw am yr amcanestyniad o'r gofyn blynyddol am anheddau, sy'n cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf.

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.17 Dengys yr amcanestyniadau ystod yn y gofynion am anheddau dros gyfnod y Cynllun o 3,700. Byddai disgwyl i gyfran fach o'r anheddau newydd hyn gael eu darparu yn yr ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri. Y ffigur cwblhau anheddau cyfartalog yn y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sy'n syrthio o fewn y Parc Cenedaethol oedd 5 y flwyddyn rhwng 2008/09 a 2022/23. Gyda thalgrynnu i'r 50 agosaf mae hyn yn grosio hyd at tua 100 dros gyfnod o bymtheng mlynedd, Byddai hyn yn dod â'r **ffigur gofyniad anheddau i oddeutu 3,600** ar gyfer rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

5.18 Mae hyn tua 240 o anheddau newydd y flwyddyn. Mae ffigur 8 yn yr adran 'Edrych ar y dystiolaeth; gofynion anheddau a thai a gwblhawyd yn y gorffennol' yn edrych ar sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r ddarpariaeth yn y gorffennol.

[31] Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhapur cefndir 52: Ail gartrefi ac unedau gwyliau tymor byr http://www.conwy.gov.uk/cdlln

5.19 Rhag ofn i rai o'r safleoedd y disgwylir iddynt gael eu datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun beidio â chael eu darparu neu rhag ofn y ceir oedi annisgwyl wrth ddatblygu, ychwanegwyd ffigur wrth gefn o 20% at y ffigur, i ganiatáu hyblygrwydd o ran faint o dir sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer datblygu tai[32]. Mae ychwanegu lwfans wrth gefn yn cynyddu'r gofyniad i 4,300.

5.20 Ni fydd gofyn i'r holl anheddau newydd hyn gael dyraniadau tir newydd ar gyfer tai. Bydd tir sydd eisoes â chaniatadau, anheddau sydd eisoes wedi cael eu hadeiladu ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun a datblygiadau ar safleoedd 'ar hap' oll yn cyfrannu at y ddarpariaeth anheddau newydd. Ar 1af Ebrill 2025 roedd y gofyn am ddyraniadau tir newydd ar gyfer tai ar draws cyfnod y Cynllun 1,35 o unedau gan gynnwys y lwfans wrth gefn[33].

**Ffigur 13: effeithiau cyflenwad tir opsiwn twf a ffefrir**

| **Newid 2018-2033** | |
|---|---|
| **Cyfanswm y ddarpariaeth dai** | 4,300 |
| **Cyflenwad tir presennol*** (fel ar 1af Ebrill 2023) | 2,950 |
| **Dyraniadau newydd sy'n ofynnol** | **1,350** |

* nifer yr anheddau sydd eisoes â chaniatâd cynllunio neu sydd wrthi'n cael eu codi, unrhyw dai a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun, ac amcangyfrif o'r ddarpariaeth o safleoedd ar hap dros gyfnod y Cynllun. Bydd y nifer hwn yn newid wrth i'r Cynllun fynd yn ei flaen drwy'r broses ymgynghori, wrth i adolygiad o'r safleoedd presennol fynd rhagddo.

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.21 Caiff gwaith pellach ar ganfod faint o dir sydd ei angen i fodloni'r gofyn am anheddau ei gyflwyno yn yr papurau cefndir "Asesiad o'r Gallu i Ddarparu Safleoedd Strategol" a'r "Cyflenwad Tir ar gyfer Tai""[34]. Mae'r papurau hyn yn cyflwyno tystiolaeth o'r cyflenwad presennol o ymrwymiadau a'r tai a gwblhawyd ynghyd â'r cyflenwad posibl o safleoedd ar hap. Mae'r papurau'n

[32] Mae rhagor o wybodaeth am y mater hwn i'w chael yn y papurau cefndir "Asesiad Darparu Safleoedd" a "Cyflenwad Tir ar gyfer Tai" http://www.conwy.gov.uk/cdlln
[33] Mae rhagor o wybodaeth am y mater hwn i'w chael yn y papurau cefndir "Asesiad Darparu Safleoedd" a "Cyflenwad Tir ar gyfer Tai http://www.conwy.gov.uk/cdlln
[34] http://www.conwy.gov.uk/cdlln

esbonio pam mae'r ffigurau yn realistig ac yn briodol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, ac ystyried y dystiolaeth.

### Effaith ar ddarparu tai fforddiadwy

5.22 Mae'r Cynllun yn nodi targed ar gyfer 1,760 o gartrefi fforddiadwy newydd i'w hadeiladu dros gyfnod y cynllun. Gellir darparu arwydd o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy canolradd a chymdeithasol newydd o'r ffigurau anheddau hyn drwy broses gyfrifo syml, gan wneud tybiaethau y darperir 20% neu 30% o'r ffigur anheddau cyffredinol o 4,300, fel y nodir yn y tabl isod.

5.23 Y diffiniad o dai fforddiadwy a ddefnyddir yma yw tai sydd ar gael am rent cymdeithasol, rhent canolraddol neu ar gyfer pryniant canolraddol, a ddarperir i aelwydydd cymwys nad yw'r farchnad yn bodloni eu hanghenion [35]. Nid yw'n cynnwys y diffiniad ehangach o dai marchnad cost isel.

**Ffigur 14: y potensial i ddarparu tai fforddiadwy i fodloni'r angen cymdeithasol a chanolradd**

| Potensial tai fforddiadwy ar 20% o gyfanswm y gofyn am anheddau | |
|---|---|
| **Cyfanswm dros gyfnod y Cynllun** | 700 |
| **Ffigur blynyddol cyfartalog** | 50 |
| **Potensial tai fforddiadwy ar 30% o gyfanswm y gofyn am anheddau** | |
| **Cyfanswm dros gyfnod y Cynllun** | 1,100 |
| **Ffigur blynyddol cyfartalog** | 70 |

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri.

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Cymysgedd tai

5.24 Gellir defnyddio amcanestyniadau aelwydydd i ddarparu arwydd o'r newid posibl yn y cymysgedd tai a fydd yn ofynnol i'r dyfodol. Fel y nodwyd eisoes

[35] Gweler https://www.gov.uk/guidance/definitions-of-general-housing-terms

ym mharagraff 5.12 uchod, disgwylir i faint cyfartalog aelwydydd leihau yn unol â thueddiadau’r gorffennol.

5.25 Mae’r ffigurau hyn yn seiliedig ar newid mewn aelwydydd yn hytrach na ffigurau anheddau ac felly byddant yn cyd-fynd â’r rheini yn yr adran ‘twf aelwydydd’ uchod, yn hytrach na’r ffigurau yn yr adran ar ‘ofynion anheddau’.

5.26 Dengys gwaith dadansoddi pellach mai aelwydydd un neu ddau unigolyn sydd i gyfrif am bron yr holl gynnydd amcanestynedig yn niferoedd yr aelwydydd rhwng 2018 a 2033.

5.27 Er y disgwylir i **nifer** yr aelwydydd pedwar unigolyn neu ragor aros tua’r un peth yn ystod y cyfnod, bydd **cyfran** yr aelwydydd 4+ o bobl yn gostwng ychydig (gan syrthio o oddeutu 16% o’r holl aelwydydd yn 2018 i oddeutu 15% o’r holl aelwydydd yn 2033).

5.28 Mae data Cyfrifiad hefyd yn cefnogi’r cysyniad y dylai’r ddarpariaeth newydd gael ei chanoli ar anheddau ar gyfer aelwydydd llai, ac nid ar anheddau mwy, oherwydd y ceir eisoes lawer gormod o eiddo sydd wedi’u tan feddiannu yn y Fwrdeistref Sirol. Gan ddefnyddio dull syml iawn o fesur tan feddiannaeth, yn 2021 ceid dros 27,400 o aelwydydd a oedd yn byw mewn lletyau a oedd â mwy o ystafelloedd gwely na phreswylwyr. Roedd hyn yn 52.5% o’r holl aelwydydd a chynhwysant 5,100 o aelwydydd a oedd yn cynnwys un neu ddau o breswylwyr yn unig a oedd yn byw mewn anheddau â phedair ystafell wely neu ragor [36]. Roedd hyn yn gynnydd ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 lle'r oedd 26,000 (50.8%) o aelwydydd yn byw mewn lletyau a oedd â mwy o ystafelloedd gwely na phreswylwyr.

[36] Set ddata Cyfrifiad 2021 gan ddefnyddio amrywiolion maint aelwydydd yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely a Chyfrifiad 2011 tabl DC4405EW. Roedd y cyfrifiad yn dyroddi ystafell wely yr un i bob aelod o’r aelwyd, gan wneud dim addasiadau ar gyfer cyplau na brodyr a chwiorydd a allai fod yn rhannu ystafell. Ystyriwyd bod unrhyw annedd â mwy o ystafelloedd gwely na phreswylwyr wedi’i than feddiannu.

**Ffigur 15: newid amcanestynedig yn nifer yr aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy 2018-2033, yn ôl math o aelwyd**

| | Newid Nifer | Newid Canran |
|---|---|---|
| **Cyfanswm aelwydydd** | 3,350 | 6.4% |
| **Aelwydydd 1 unigolyn** | 2,000 | 11.0% |
| **Aelwydydd 2 unigolyn** | 1,450 | 7.6% |
| **Aelwydydd 3 unigolyn** | -150 | -2.0% |
| **Aelwydydd 4 unigolyn** | 100 | 1.5% |
| **Aelwydydd 5+ unigolyn** | -100 | -3.0% |
| **Pob aelwyd â phlant** | -150 | -1.3% |
| **Aelwydydd 1 unigolyn oed 65+** | 1,600 | 17.0% |

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.29 Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i ddarparu tai sy’n addas i fodloni anghenion poblogaeth sy’n heneiddio, gyda phwyslais arbennig ar anghenion aelwydydd un pensiynwr. Erbyn 2033, disgwylir i oddeutu 20% o’r holl aelwydydd, ac yn 54% o’r holl aelwydydd un unigolyn fod yn bobl 65 oed neu hŷn sy’n byw ar eu pen eu hunain. Yn 2021 amcangyfrifwyd bod 9,650 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain ym Mwrdeistref Sirol Conwy[37] – roedd hyn yn dros 18% o’r holl aelwydydd.

[37] Cyfrifiad 2021, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Ffigur 16: cyfran y newid yn ôl y math o aelwyd**

| Newid 2018-2033 | |
|---|---|
| **Cyfanswm aelwydydd** | 3,350 |
| **Aelwydydd 1 unigolyn** | 60.2% |
| **Aelwydydd 2 unigolyn** | 44.0% |
| **Aelwydydd 3 unigolyn** | -4.2% |
| **Aelwydydd 4 unigolyn** | 2.5% |
| **Aelwydydd 5+ unigolyn** | -2.5% |
| **Pob aelwyd â phlant** | -4.8% |
| **Aelwydydd 1 unigolyn oed 65+** | 47.8% |

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.30 Er hynny, erbyn diwedd y 2030au (yn union ar ôl diwedd cyfnod y Cynllun) rydym yn debygol o weld gostyngiad yn nifer yr aelwydydd un pensiynwr wrth inni ddechrau gweld carfan fawr y blynyddoedd brig babanod ar ôl yr 2il Ryfel Byd yn darfod. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth gynllunio yn yr hirdymor ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio (gweler adran 2 'Edrych ar y dystiolaeth: proffil demograffig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy' am ragor o wybodaeth).

5.31 Mae canolbwyntio'r ddarpariaeth newydd ar anheddau llai hefyd yn cynyddu'r potensial i sicrhau bod tai marchnad agored fforddiadwy ar gael yn y Fwrdeistref Sirol. Yn y farchnad, mae eiddo llai fel arfer yn rhatach, ac maent yn gyffredinol yn bodloni anghenion aelwydydd sy'n ffurfio o'r newydd/prynwyr tro cyntaf yn well nag anheddau mwy.

5.32 O fewn y sector tai cymdeithasol, gallai darparu anheddau llai helpu i fodloni anghenion aelwydydd sydd wedi gweld eu budd-daliadau'n gostwng yn sgil cyflwyno'r gost tan feddiannu (y dreth ystafell wely fel y'i gelwir) ac sydd felly angen symud i lety llai. Mae Asesiad Diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol[38] yn dangos tan-ddarpariaeth o eiddo un ystafell wely yn benodol o fewn y stoc dai cymdeithasol. Mae tan-ddarpariaeth o eiddo mwy o fewn y stoc dai

[38] Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/HousingServices/Policies-plans-strategies/Local-Housing-Market-Assessment.aspx.

cymdeithasol (4+ ystafell wely) hefyd yn amlwg o’r galw a gofnodwyd ar y gofrestr dai, sy’n awgrymu fod darpariaeth o eiddo mwy angen bod o fewn y sector dai hwn.

### Effeithiau cyflogaeth

5.33 Mae ffigur 17 yn dangos y gofynion o ran tir cyflogaeth a thwf swyddi yr amcanestynnir y byddant yn codi o’r opsiwn twf a ffefrir ar gyfer CDLl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Ffigur 17: effeithiau cyflogaeth yr opsiynau twf ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy**

| Effeithiau economaidd | |
|---|---|
| **Twf swyddi** | 1,500 |
| **Twf swyddi ac eithrio PCE*** | 1,450 |
| **Tir (ha)** | 10.5 |

* Y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, ac amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

5.34 Mae’r amcanestyniadau yn dangos ystod twf swyddi dros gyfnod y Cynllun o 1,500. Mae hyn yn cyfateb i ofynion tir cyflogaeth o 10.5 ha ar gyfer swyddi newydd dros gyfnod y Cynllun (mae’n bosibl y bydd tir cyflogaeth ychwanegol yn angenrheidiol i adnewyddu neu ehangu safleoedd sy’n bodoli eisoes).

5.35 Byddai disgwyl i gyfran fach o'r swyddi hyn gael eu darparu yn yr ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri. Gyda thalgrynnu i'r 50 agosaf, byddai hyn yn dod â'r ffigur gofyniad swyddi i oddeutu 1,450 ar gyfer rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Ni fyddai hyn yn cael fawr o effaith ar ofynion tir.

5.36 Ceir effeithiau cyflogaeth yr amcanestyniadau gan ddefnyddio dwy fethodoleg wahanol. Mae’r senario twf a arweinir gan gyflogaeth yn dechrau â’r gofyn am dir cyflogaeth a swyddi ac mae’n ôl-weithio ffigurau’r gofyn am anheddau,

aelwydydd a’r boblogaeth o’r ffigurau hynny. Cymhwyswyd y fethodoleg hon i’r opsiwn twf a ffefrir [39].

5.37 Caiff cyfanswm y gofyn am swyddi ei drosi yn ofyn am dir cyflogaeth drwy ddefnyddio ffigur cyfartalog cenedlaethol ar gyfer dwysedd swyddi o 21 msg i bob swydd i gael cyfanswm y gofod llawr sy’n ofynnol. Yna rhennir y ffigur ar gyfer gofod llawr â ffigur cyfartalog Conwy ar gyfer dwysedd datblygu o 3,000 msg/ha i gael ffigur cyffredinol am y gofyn am dir cyflogaeth [40].

5.38 Ni fydd y methodolegau hyn ar gyfer edrych ar y berthynas rhwng poblogaeth, gofyniad anheddau ac effeithiau cyflogaeth yn cynhyrchu'r un ffigurau ag sy'n dod o'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth[41] nag o rannau eraill o sylfaen dystiolaeth y CDLl sy’n edrych yn benodol ar faterion economaidd. Mae’r adolygiadau hyn yn defnyddio gwahanol fethodolegau a gwahanol dybiaethau am y ffactorau sy’n sbarduno twf i edrych ar wahanol faterion, felly nid oes disgwyl iddynt gyfateb yn union[42]. Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn defnyddio methodoleg yn seiliedig ar dwf mewn gwahanol fathau o sectorau cyflogaeth, ac yn edrych ar y tir sydd ei angen ar gyfer y gyflogaeth hon. Nid yw'r model rhagweld hwn yn cyfateb i'r mathau o ddata na chyfrifiadau a ddefnyddir wrth edrych ar dwf poblogaeth ac aelwydydd, a'r gofyniad anheddau cysylltiedig. Mae gofynion tir yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hefyd yn cynnwys arian at raid ar gyfer colledion o dir cyflogaeth presennol a all ddigwydd yn ystod cyfnod y cynllun, ac er mwyn galluogi hyblygrwydd o fewn amserlenni darparu datblygiadau.

[39] Gyda’r amcanestyniadau a arweinir gan y boblogaeth, y boblogaeth oedran gweithio yw’r man cychwyn ar gyfer cyfrifiadau sy’n rhoi ystyriaeth i gyfraddau gweithgarwch economaidd, patrymau cymudo, a dwyseddau datblygu cyn esgor ar y ffigurau twf tir cyflogaeth a swyddi. Ni ddefnyddir y fethodoleg hon ar gyfer yr opsiwn twf a ffefrir, ond fe'i defnyddiwyd yn y papur opsiynau twf a gyflwynwyd fel rhan o cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd o’r broses Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

[40] Cyngor ar fethodolegau a gafwyd yn wreiddiol gan BE Group, a gynhyrchodd y papurau cefndir Adolygiad o Dir Cyflogaeth ar gyfer CDLlau Sir y Fflint a Wrecsam. Mae’r ffigur cyfartalog ar gyfer dwysedd swyddi yn ffigur cyfartalog ar gyfer y rhan fwyaf o’r sectorau gwasanaeth.

[41] Mae’r astudiaeth ELR, a gomisiynwyd gan Lichfields Planning Consultants, ar gael fel rhan o’r dystiolaeth gefndir ar gyfer y CDLl http://www.conwy.gov.uk/cdlln.

[42] Gweler paragraffau 2.31-2.33, 3.2 a 3.3 am ragor o fanylion.

# Atodiad 1: Goblygiadau ehangach twf aelwydydd a'r boblogaeth

Er nad yw amcanestyniadau yn wirionedd absoliwt am strwythurau a chyfansymiau poblogaeth i'r dyfodol, maent yn rhoi arwydd o'r hyn a allai ddigwydd yn y blynyddoedd nesaf – ac nid dim ond o ran gofynion tai a'r newidiadau yn y cyflenwad llafur. Bydd niferoedd yr aelwydydd a strwythur y boblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol i'r dyfodol yn cael effaith ar lawer o ffactorau sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau a'u cynaliadwyedd, megis niferoedd disgyblion, anghenion gofal cymdeithasol i boblogaeth sy'n heneiddio, faint o sbwriel a gynhyrchir a'r angen am dir cyflogaeth.

Rydym yn defnyddio amcanestyniadau gan fod angen inni flaengynllunio ein busnes a'n darpariaeth gwasanaethau. O'u defnyddio ochr yn ochr â ffynonellau gwybodaeth, ymchwil a data eraill, maent yn rhoi arwydd o'r hyn sy'n debygol o ddigwydd i'r dyfodol. Gallwn wedyn gynllunio i ddarparu ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu rhagamcanu, neu lunio strategaethau a fydd yn lleihau eu heffaith (neu newid y dyfodol hyd yn oed).

Fodd bynnag, man cychwyn yn unig ydy amcanestyniadau wrth geisio deall y dyfodol, ac mae angen inni adolygu'r broses amcanestyniadau'n rheolaidd, oherwydd bod tueddiadau'n newid.

Mae'r tabl isod yn dangos, ar ffurf syml, rai o effeithiau posibl opsiynau twf y CDLl newydd ar gyflenwi gwasanaethau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n canolbwyntio ar y modd y mae Awdurdodau Unedol wedi defnyddio amcanestyniadau dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ffigurau'n dangos y newid rhwng 2018 a 2033 – y dyddiad y bwriedir i'r Cynllun Datblygu Lleol ddod i ben ar hyn o bryd. Mae cyfanswm 2018 wedi'i gymryd o'r amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig canol y flwyddyn a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Nhachwedd 2023.

Oni nodir yn wahanol, darperir y ffigurau hyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhan o'r ardal sydd dan awdurdodaeth Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri.

Ffigur 18: effeithiau posibl ar gyflenwi gwasanaethau yr opsiwn twf a ddewiswyd

| Dangosydd effaith | Cyfansymiau 2018 | Newid 2018-2033 |
|---|---|---|
| **Amcanestyniad** | | |
| **Poblogaeth** | 114,400 | 4,950 |
| **Aelwydydd** | 51,800 | 3,350 |
| **Tai** | | |
| **Cyfanswm y gofyn am anheddau** (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) | - | 3,600 |
| **Y gofyn blynyddol am anheddau** | - | 240 |
| **Potensial y ddarpariaeth dai fforddiadwy** (ar 20% o gyfanswm y gofyn) | - | 50-60 y flwyddyn |
| **Busnes a chyflogaeth** | | |
| **Poblogaeth oedran gweithio*** | 65,050 | 1,350 |
| **Llafurlu** (poblogaeth oedran gweithio sy'n economaidd weithredol) | 50,100 | 1,600 |
| **Twf swyddi** | 50,000 | 1,450 |
| **Incwm yn yr economi leol** | - | Cynnydd |
| **Effaith busnes** | - | Positif |
| **Y gofyn am dir cyflogaeth ar gyfer twf swyddi**** | - | 10.5 ha |
| **Cludiant** | | |
| **Cynnydd yn y lefel traffig (cymharol)** | - | Uchel |
| **Pasys bysys** | - | Llawer uwch |
| **Cost bysys ysgol** | - | Dim newid |
| **Addysg** | | |
| **Cyn oed ysgol (0-4)** | 5,350 | -400 |
| **Oed ysgol gynradd (5-10)** | 7,350 | -850 |
| **Ysgol uwchradd / lleoedd AB (11-17)** | 8,400 | 400 |
| **Gofal cymdeithasol** | | |
| **75-84 oed** (cynnydd posibl yn y gefnogaeth) | 10,050 | 3,150 |
| **85+ oed** (cynnydd posibl yn y gefnogaeth) | 4,500 | 2,050 |
| **Newid yng nghyflogaeth y sector "gofal"** | - | Angen mwy |
| **Effaith bosibl ar wasanaethau plant** | - | Sylfaen cleient - llai |
| **Casglu sbwriel** | | |
| **Faint o sbwriel domestig** | - | 4.3% |
| **Nifer y mannau casglu domestig** | - | 6.5% |
| **Treth gyngor** | | |
| **Newid yn y sylfaen treth** | - | Cynnydd |
| **Nifer y lwfansau aelwydydd un oedolyn** | 20,750 | 2,250 |

* Rhoddir ystyriaeth i’r newidiadau yn y pensiwn gwladol wrth gyfrifo’r boblogaeth oedran gweithio. Ar ddiwedd cyfnodau amcanestyniadau 2018-33 mae’r oedran hwnnw yn 67 i ddynion a menywod, felly’r oedran gweithio ydy’r holl breswylwyr sy’n 16-66 oed. Yn 2018 mae’r boblogaeth oedran gweithio yn yr ystod oedran 16-64 gan mai 65 yw oedran ymddeol y wladwriaeth i ddynion a menywod.

** Mae’n bosibl y bydd tir cyflogaeth ychwanegol yn angenrheidiol i adnewyddu neu ehangu safleoedd sy’n bodoli eisoes

Ffynonellau: amcanestyniadau sail-2018, CBS Conwy; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2018, ONS; Amcangyfrifon aelwydydd 2019, Llywodraeth Cymru; ffigurau dwysedd swyddi, ONS

## Atodiad 2: Rhestr o'r opsiynau twf a ystyriwyd

I gyd, ystyriwyd ugain o wahanol opsiynau twf cyn opsiwn y pump a gyflwynir ar gyfer y papur cefndir hwn. Mae manylion y rhain i'w gweld yn y tabl canlynol.

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan y boblogaeth – tuedd ymfudo 5 mlynedd sail-2017 (methodoleg Llywodraeth Cymru)** | * Defnyddia'r un fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir yn amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru gan eu diweddaru â'r data diweddaraf sydd ar gael. | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 5 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft.<br>* Yn parhau â'r tuedd at allfudo ymysg oedolion ifanc, ac nid yw'n cefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth – tuedd ymfudo 10 mlynedd sail-2017 (methodoleg Llywodraeth Cymru)** | * Defnyddia'r un fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir yn amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru gan eu diweddaru â'r data diweddaraf sydd ar gael. | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 10 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft.<br>* Yn parhau â'r tuedd at allfudo ymysg oedolion ifanc, ac nid yw'n cefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth – tuedd ymfudo 15 mlynedd sail-2017 (methodoleg Llywodraeth Cymru)** | * Defnyddia'r un fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir yn amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru gan eu diweddaru â'r data diweddaraf sydd ar gael.<br>* Tuedd ymfudo a ffurfiwyd o 15 mlynedd o ddata, sy'n cyfateb i hyd cyfnod y Cynllun. | * Lefelau twf rhy isel o bosibl i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft.<br>* Yn parhau â'r tuedd at allfudo ymysg oedolion ifanc, ac nid yw'n cefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | Ydy - opsiwn 1 cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan y boblogaeth – tuedd ymfudo 5 mlynedd sail-2017 (model dueddfryd)** | * Defnyddia rhai o'r un fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir yn amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru gan eu diweddaru â'r data diweddaraf sydd ar gael.<br>* Mae'r model tueddiadau'n helpu i leddfu effaith y tuedd at allfudo ymysg oedolion ifanc a gwelir twf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 5 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Mae dull modelu ar dueddiadau'n tybio na fydd ymddygiadau na ffactorau sbarduno yn newid, ac nid yw'n darparu'n ddigonol ar gyfer y ffactorau 'atynnu' a allai arwain at allfudo (neu gyfyngu ar fewnfudo).<br>* Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth - tuedd ymfudo 10 mlynedd sail-2017 (model dueddfryd)** | * Defnyddia rhai o'r un fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir yn amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru gan eu diweddaru â'r data diweddaraf sydd ar gael.<br>* Mae'r model tueddiadau'n helpu i leddfu effaith y tuedd at allfudo ymysg oedolion ifanc a gwelir twf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 10 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Mae dull modelu ar dueddiadau'n tybio na fydd ymddygiadau na ffactorau sbarduno yn newid, ac nid yw'n darparu'n ddigonol ar gyfer y ffactorau 'atynnu' a allai arwain at allfudo (neu gyfyngu ar fewnfudo).<br>* Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol. | Ydy - opsiwn 2 cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan y boblogaeth – tuedd ymfudo 15 mlynedd sail-2017 (model dueddfryd)** | * Defnyddia rhai o'r un fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir yn amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru gan eu diweddaru â'r data diweddaraf sydd ar gael.<br>* Mae'r model tueddiadau'n helpu i leddfu effaith y tuedd at allfudo ymysg oedolion ifanc a gwelir twf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys.<br>* Ffurfiwyd y tuedd ymfudo o 15 mlynedd o ddata, sy'n cyfateb i hyd cyfnod y Cynllun. | * Mae dull modelu ar dueddiadau'n tybio na fydd ymddygiadau na ffactorau sbarduno yn newid, ac nid yw'n darparu'n ddigonol ar gyfer y ffactorau 'atynnu' a allai arwain at allfudo (neu gyfyngu ar fewnfudo).<br>* Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol. | Ydy - opsiwn 3 cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd |
| **Arweinir gan y gyflogaeth - 1,500 o swyddi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun** | * Yn seiliedig ar y dyheadau yn Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-2027, sy'n bwrw ymlaen fel tuedd dwf swyddi'r gorffennol.<br>* Yn rhoi ystyriaeth i ddadansoddiad o gyflogaeth sectorau a thueddiadau economaidd cenedlaethol.<br>* Mae mewnfudo sy'n cael ei sbarduno gan swyddi yn arwain at dwf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys.<br>* Amcanestyniadau diwygiedig wedi'u defnyddio yng nghamau cynharach yr ymgynghoriad ar y CDLIN gyda'r dystiolaeth ddiweddaraf, gan gynnwys ystyriaethau dechreuol o effeithiau Covid-19. | * Nid yw'n cyd-fynd â ffigurau sy'n seiliedig ar dueddiadau poblogaeth – er na fyddai disgwyl iddo wneud hynny, gan eu bod yn mesur tueddiadau gwahanol.<br>* Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol. | Ydy - cyflwynwyd yr opsiwn yn y Cynllun Adneuo |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan y gyflogaeth - 1,850 o swyddi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun** | * Yn seiliedig ar y dyheadau yn Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-2027, sy'n bwrw ymlaen fel tuedd dwf swyddi'r gorffennol.<br>* Yn rhoi ystyriaeth i ddadansoddiad o gyflogaeth sectorau a thueddiadau economaidd cenedlaethol.<br>* Mae mewnfudo sy'n cael ei sbarduno gan swyddi yn arwain at dwf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | * Nid yw'n cyd-fynd â ffigurau sy'n seiliedig ar dueddiadau poblogaeth – er na fyddai disgwyl iddo wneud hynny, gan eu bod yn mesur tueddiadau gwahanol.<br>* Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol. | Ydy - cyflwynwyd yr opsiwn yn y Strategaeth Twf a Ffafrir ac opsiwn 4 cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd |
| **Arweinir gan y gyflogaeth - 3,500 o swyddi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun** | * Yn seiliedig ar y dyheadau yn Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-2027, sy'n bwrw ymlaen fel tuedd dwf swyddi'r gorffennol.<br>* Yn rhoi ystyriaeth i ddadansoddiad o gyflogaeth sectorau a thueddiadau economaidd cenedlaethol.<br>* Mae mewnfudo sy'n cael ei sbarduno gan swyddi yn arwain at dwf yn y boblogaeth oedran gweithio, gan gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft am dwf economaidd a strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | * Nid yw'n cyd-fynd â ffigurau sy'n seiliedig ar dueddiadau poblogaeth – er na fyddai disgwyl iddo wneud hynny, gan eu bod yn mesur tueddiadau gwahanol.<br>* Mae'r lefelau twf yn uchel, ac o bosibl uwchben y rheini a fyddai'n gynaliadwy neu'n gyflawnadwy o fewn dyheadau'r CDLIN drafft.<br>* Gallai roi golwg rhy optimistaidd o'r potensial ar gyfer twf, ac ystyried tystiolaeth o strwythur poblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd Gorllewinol. | Ydy - opsiwn 5 cam cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol cyn ei archwilio gan y cyhoedd |
| **Arweinir gan y boblogaeth – newid naturiol sail-2017 (dim ymfudo)** | * Yn dangos effaith senario newid naturiol yn unig (hynny yw, beth a fyddai'n digwydd i'r boblogaeth pe byddai'r holl ymfudo yn stopio).<br>* Caiff amcanestyniad dim ymfudo ei gynhyrchu bob amser fel amcanestyniad amrywiadol fel rhan o broses cyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol swyddogol Llywodraeth Cymru. | * Senario afrealistig, nad yw'n caniatáu ar gyfer dim mewnfudo nac allfudo. Mae newid yn y boblogaeth yn seiliedig yn unig ar enedigaethau a marwolaethau yn y boblogaeth bresennol.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft.<br>* Llywodraeth Cymru na'r Arolygydd yn annhebygol o'i gefnogi. | Nac ydy |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan y boblogaeth – amcanestyniad tuedd canolog sail-2018 (prif amcanestyniad swyddogol Llywodraeth Cymru)** | * Amcanestyniad tuedd canolog sail-2018 Llywodraeth Cymru ynghyd â man cychwyn awgrymedig ar gyfer asesu opsiynau twf ar gyfer y CDLIN (Polisi Cynllunio Cymru 2024). | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 5 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth - amcanestyniad amrywiolyn twf-is sail-2018 (amcanestyniad amrywiol swyddogol Llywodraeth Cymru)** | * Amcanestyniad amrywiolyn twf-uwch sail-2018 Llywodraeth Cymru ynghyd â man cychwyn awgrymedig ar gyfer asesu opsiynau twf ar gyfer y CDLIN (Polisi Cynllunio Cymru 2024). | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 5 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth - amcanestyniad amrywiolyn twf-uwch sail-2018 (amcanestyniad amrywiol swyddogol Llywodraeth Cymru)** | * Amcanestyniad amrywiolyn twf-is sail-2018 Llywodraeth Cymru ynghyd â man cychwyn awgrymedig ar gyfer asesu opsiynau twf ar gyfer y CDLIN (Polisi Cynllunio Cymru 2024). | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 5 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Nid yw patrymau twf yn cefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft. | Nac ydy |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan y boblogaeth – tuedd ymfudo 5 mlynedd sail-2014 (prif amcanestyniad swyddogol Llywodraeth Cymru)** | * Amcanestyniad tuedd ymfudo 5 mlynedd sail-2014 Llywodraeth Cymru ynghyd â man cychwyn awgrymedig ar gyfer asesu opsiynau twf ar gyfer y CDLIN (Polisi Cynllunio Cymru 2019). | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 5 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Mae'r data sylfaen poblogaeth wedi'i ddiwygio ac mae pum blynedd yn rhagor o ddata ar gael, felly mae bellach wedi dyddio.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft.<br>* Disodlwyd gan amcanestyniadau 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2020. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth - tuedd ymfudo 10 mlynedd sail-2014 (amcanestyniad amrywiol swyddogol Llywodraeth Cymru)** | * Amcanestyniad tuedd ymfudo 10 mlynedd sail-2014 Llywodraeth Cymru ynghyd â man cychwyn awgrymedig ar gyfer asesu opsiynau twf ar gyfer y CDLIN (Polisi Cynllunio Cymru 2019). | * Yn seiliedig ar duedd ymfudo 10 mlynedd yn unig, ond yn amcanestyn am 15 mlynedd dros gyfnod y Cynllun.<br>* Mae'r data sylfaen poblogaeth wedi'i ddiwygio ac mae pum blynedd yn rhagor o ddata ar gael, felly mae bellach wedi dyddio.<br>* Lefelau twf yn rhy isel i gefnogi'r dyheadau yn y CDLIN drafft.<br>* Disodlwyd gan amcanestyniadau 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2020. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y boblogaeth - tuedd ymfudo 5 mlynedd sail-2008 (yn disodli amcanestyniad swyddogol Llywodraeth Cymru)** | * Amcanestyniadau sail-2008 Llywodraeth Cymru, sydd bellach wedi cael eu disodli.<br>* Cynhwyswyd fel cymhariaeth â'r CDLI presennol 2007-2022, a ddefnyddiodd yr amcanestyniad hwn fel sail i'w strategaeth dwf. | * Y dystiolaeth wedi dyddio llawer.<br>* Llywodraeth Cymru na'r Arolygydd yn annhebygol o'i gefnogi. | Nac ydy |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan dai – cyfrifiad o'r angen am dai fforddiadwy (SARTH cat 1 a 2)** | * Yn seiliedig ar yr angen am dai fforddiadwy fel y nodir yng nghyfrifiad yr Asesiad o'r Farchnad Dai 2017, gan gynnwys aelwydydd ar y gofrestr un llwybr mynediad at dai sydd yng nghategori angen 1 a 2.<br>* Yn nodi'r holl angen posibl am dai i gyflawni'r angen am dai fforddiadwy, gan dybio y darperir tai fforddiadwy ar 20% (gallai'r holl ofyn am anheddau fod 5 gwaith yn fwy na'r ffigur gros hwn). | * Mae'n annhebygol y darperir y gofyn am dir ar gyfer tai – mae'r ffigur blynyddol bron ddwywaith y lefel uchaf a welwyd yn y 15 mlynedd diwethaf.<br>* Mae'r holl lefelau twf yn llawer uwch na'r rheini a fyddai'n gynaliadwy o fewn dyheadau'r CDLIN drafft. | Nac ydy |
| **Arweinir gan dai - cyfrifiad o'r angen am dai fforddiadwy (SARTH llawn)** | * Yn seiliedig ar yr angen am dai fforddiadwy fel y nodir yng nghyfrifiad yr Asesiad o'r Farchnad Dai 2017, gan gynnwys aelwydydd ar y gofrestr un llwybr mynediad at dai.<br>* Yn nodi'r holl angen posibl am dai i gyflawni'r angen am dai fforddiadwy, gan dybio y darperir tai fforddiadwy ar 20% (gallai'r holl ofyn am anheddau fod 5 gwaith yn fwy na'r ffigur gros hwn). | * Mae'n annhebygol y darperir y gofyn am dir ar gyfer tai – mae'r ffigur blynyddol bron ddwywaith y lefel uchaf a welwyd yn y 15 mlynedd diwethaf.<br>* Mae'r holl lefelau twf yn llawer uwch na'r rheini a fyddai'n gynaliadwy o fewn dyheadau'r CDLIN drafft. | Nac ydy |
| **Arweinir gan y gyflogaeth – defnydd tir yn y gorffennol** | * Yn seiliedig ar y gyfradd defnydd tir cyflogaeth ddiweddaraf, a fyddai, o'i bwrw ymlaen fel tuedd, yn cyfateb i 20.8 ha yn ystod cyfnod y Cynllun | * Yn bwrw ymlaen fel tuedd gyfradd defnydd tir afreolaidd o uchel na fydd yn gynaliadwy dros gyfnod y Cynllun.<br>* Nid yw'n rhoi ystyriaeth i dystiolaeth o ffynonellau swyddogol ar y llafurlu a thueddiadau mewn sectorau.<br>* Nid yw'r gofyn am dir ar gyfer tai yn debygol o gael ei fodloni.<br>* Mae'r holl lefelau twf yn llawer uwch na'r rheini a fyddai'n gynaliadwy o fewn dyheadau'r CDLIN drafft. | Nac ydy |

| Amcanestyniad / Senario twf | Dadl dros yr opsiwn twf hwn | Dadl yn erbyn yr opsiwn twf hwn | Wedi'i gynnwys yn y papur opsiynau? |
|---|---|---|---|
| **Arweinir gan dai – ffigurau cwblhau tai uchaf yn y gorffennol (500 y flwyddyn)** | * Yn seiliedig ar y gyfradd cwblhau tai flynyddol uchaf yn y 15 mlynedd diwethaf (2003/04)<br>* Yn profi'r gallu i ddarparu ar gyfer gofyn mawr am anheddau, gan fwrw ymlaen fel tuedd ben uchaf y capasiti yn y diwydiant adeiladu lleol.<br>* Ystyriwyd cyfraddau cwblhau eraill o'r gorffennol hefyd (ffigurau blynyddol a ffigurau cyfartalog gwahanol gyfnodau) ond nis gwnaed yn amcanestyniadau llawn gan fod y lefelau twf amrywiadol yn debygol o gael eu cwmpasu gan amcanestyniadau eraill a wnaed eisoes. | * Yn bwrw ymlaen fel tuedd gyfradd gwblhau afreolaidd o uchel, na fydd y diwydiant adeiladu'n gallu ei gynnal o bosibl dros gyfnod 15 mlynedd y Cynllun.<br>* Nid yw'r gofyn am dir ar gyfer tai yn debygol o gael ei fodloni.<br>* Mae'r holl lefelau twf yn llawer uwch na'r rheini a fyddai'n gynaliadwy o fewn dyheadau'r CDLIN drafft. | Nac ydy |